# Cynnwys


Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
5 - Adroddiadau Archwilio Allanol 12
6 - Cyllideb Refeniw 2013-14 - Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2013) 14
6 - Adroddiad i'r Cabinet 15
Atodiad 1 17
Atodiad 2 18
7 - Rhaglen Gyfalaf 2013-14 - Adolygiad Diwedd yr Ail Chwarter (Medi 2013) 55
7 - Adroddiad i'r Cabinet 56
2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU 59
2.1 Mae cynnydd o £12.732m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn: 59
2.9 Argymhelliad 61
CRYNODEB 62
8 - Rheolaeth Trysorlys 2013-14 - Adolygiad Canol Blwyddyn 64
9 - Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu 79
10 - Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau 87
11 - Cynnyrch yr Adran Archwilio Mewnol 95
12 - Cynllun Archwilio Mewnol 2013-14 111

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD MAWRTH, 3 RHAGFYR 2013**

**10.30am TUESDAY, 3 DECEMBER 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

bethanadams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 25-11-13

## PWYLLGOR ARCHWILIO
## AUDIT COMMITTEE

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dafydd Meurig |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Trevor Edwards | Tom Ellis | John Pughe Roberts |
| | Angela Russell | |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Aeron M. Jones | R.J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Unigol/Individual Member (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

John Brynmor Hughes

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Is-Gadeirydd y Cyngor /Vice-Chairman of the Council

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Medi 2013, fel rhai cywir.
(copi yma- papur **melyn**)

**5. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella
(copi yma – papur **eog**)

**6. CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2013)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **gwyrdd**)

**7. RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2013)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

**8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi’r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol
(copi yma – papur **pinc**)

**9. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu a rôl y Pwyllgor Archwilio (copi yma – papur **llwyd**)

**10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 11 Tachwedd 2013 (copi yma – papur **glas**)

**11. CYNNYRCH YR ADRAN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Hydref 2013 (copi yma – papur **lelog**)

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2013/14 (copi yma – papur **gwyrdd**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO 26/9/13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Charles W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Angela Russell, Gethin G. Williams, R. J. Wright a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Helen L. Williams (Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol – ar gyfer eitem 5) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes a Michael Sol Owen.

Estynnwyd cydymdeimlad at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y Cynghorydd Trevor Edwards a oedd wedi colli ei fam yng nghyfraith yn ddiweddar. Nodwyd nad oedd yn bresennol oherwydd bod ganddo apwyntiad ysbyty a dymunwyd yn dda iddo.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2013, fel rhai cywir.

## 3. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Croesawyd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i’r cyfarfod.

Nododd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ei bod yn gofyn i’r Pwyllgor Archwilio sefydlu gweithgor oherwydd mai cyfrifoldeb y pwyllgor hwn yw cadw trosolwg ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor gan gynnwys y cyfansoddiad yn ei gyfanrwydd.

Nodwyd bod symudiad tuag at greu cyfansoddiad safonol ar gyfer holl gynghorau Cymru er mwyn cael cysondeb. Pwrpas y gweithgor byddai cynorthwyo yn y gwaith o adolygu’r cyfansoddiad gan roi arweiniad ar gwestiynau penodol.

Byddai’r gweithgor yn ymgynghori efo’r pwyllgorau eraill megis y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Safonau a’r Cabinet cyn adrodd yn ôl i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor Llawn ym mis Mai 2014.

Tynnwyd sylw mai mater i’r Cyngor cyfan ydyw a byddai angen i’r Cyngor Llawn ei fabwysiadu felly efallai y dylid ystyried cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wrth ddewis aelodau’r gweithgor.

**PENDERFYNWYD sefydlu gweithgor a bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor –**
**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Gethin Glyn Williams, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Dilwyn Morgan a Bob Wright.**

**4. CYFRIFON TERFYNOL 2012/13**

**i) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon.

Manylwyd ar y prif ddarganfyddiadau ôl-archwiliad. Nodwyd yn gyntaf, bod y rheoliadau yn gofyn am gyfrifon blynyddol cyd-bwyllgorau i'w hadrodd ar wahân. Mae'r Cyngor bellach wedi adrodd yn briodol ar gyfer 2012/13 gan gynnwys ffigyrau cymharol y flwyddyn flaenorol. I sicrhau cysondeb adrodd ar gyfrifon Cynghorau'r Gogledd a Chanolbarth Cymru, cytunwyd y byddai'r awdurdod arweiniol yn adlewyrchu'r sefyllfa gros a net llawn yn eu cyfrifon hwy, gyda'r awdurdodau cyfrannol eraill yn adlewyrchu'r sefyllfa net yn unig.

Yn ail, cyfeiriwyd at bryder y Swyddfa Archwilio Cymru am y data a ddarperir i'r actiwari o ran data aelodaeth sydd yn sail i'r ffigyrau ymrwymiad pensiwn ar gyfer y gronfa bensiwn. Nodwyd o ganlyniad i'r cyfyngiad hanesyddol o fewn y systemau cyfrifiadurol, bod rhai achosion o weithwyr sydd â mwy nag un swydd gyda'r Cyngor lle mae'r swyddi ychwanegol heb eu hadnabod ar wahân fel rhan o'r broses o adrodd yn flynyddol ar yr ymrwymiad pensiwn yn unol â safonau cyfrifo. Adroddwyd bod gwaith yn parhau i ddatrys yr anghysondebau yma fel bod adroddiadau cyfraniadau pensiwn blynyddol yn y dyfodol yn cyd-fynd rhwng y systemau cyflogau a phensiynau.

**ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

**a) Cyfrifon y Cyngor**

Yn unol â'r drefn Archwilio Blynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). 'Roedd Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2013 yn ogystal â'r incwm a'r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2012/13.

Ategodd yr Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru sylwadau'r Pennaeth Cyllid uchod a diolchodd am gydweithrediad y Cyngor yn yr archwiliad.

**b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Fel yr uchod, adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2013.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2012/13.

Nododd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru y tynnwyd sylw'r Cyngor pan archwiliwyd y cyfrifon nad oedd y Cyngor wedi cronni ar gyfer costau o £710,000 lle'r oedd aelodau'r Gronfa Bensiwn wedi ymddeol ar 31 Mawrth 2013, a bod y Cyngor wedi newid y cyfrifon i adlewyrchu hyn.

Ategodd y sylwadau a wnaed yng nghyswllt data ymrwymiadau pensiwn yn y cyfrifon a phwysleisiwyd yr angen i weithio efo'r cyflogwyr sydd yn rhan o'r Gronfa Bensiwn i sicrhau bod eu cofnodion yn gyfredol.

Nodwyd bod mater a godwyd yn y gorffennol yng nghyswllt cyfrifo'r newid yng ngwerth y farchnad wedi ei ddatrys a bod trefniadau priodol mewn lle i wirio'r cofnod hwn yn y datganiadau ariannol.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a diolchodd am y cydweithrediad.

**iii) Llythyrau Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar gyfrifon terfynol 2012/13, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid lythyrau at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio. 'Roedd y "llythyrau cynrychiolaeth" hyn yn cynnwys gosodiadau ynglŷn â datganiadau ariannol y Cyngor a datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2012/13. Eglurodd iddo ddrafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd, sef y Pwyllgor Archwilio.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y cyfarfod yma o'r Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2012/13, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Chwefror 2012. Manylwyd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Tynnwyd sylw bod rhagdybiaeth pan gaewyd y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2012/13 byddai'r Cyngor yn adennill 88c/£ o'r buddsoddiadau a wnaed ym Manc Heritable. Nodwyd fod y Cyngor bellach wedi derbyn taliad cyn derfynol o 94c/£ a disgwylir derbyn taliad pellach o'r swm mae'r gweinyddwr wedi'i gadw wrth gefn.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth Cyllid bod y cyfanswm llog a dderbyniwyd yn llai na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb oherwydd bod y rhagdybiaethau llog ar ddechrau'r flwyddyn yn well na'r gwir log a dderbyniwyd a bod y tueddiad negyddol yn parhau. Ychwanegodd bod gan y Cyngor strategaeth buddsoddi darbodus sy'n ceisio isafu'r risg

trwy fuddsoddi mewn amrediad o wahanol fanciau yn hytrach na buddsoddi swm mwy sylweddol mewn un banc.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 6. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2013 i ystyried dau archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2013 sef –
a) Siopau Gwynedd
b) Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r cyfarfod fod yn un buddiol iawn ac yn fodd o roddi cyfle i drafod yr archwiliadau a gwyntyllu'r camau a roddwyd ar waith i gryfhau rheolaethau. Ategwyd hyn gan aelodau'r gweithgor a oedd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Awst 2013**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst 2013. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 10 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 adroddiad arall (memoranda a.y.)
- 2 adolygiadau grant

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch (Corfforaethol)**

Nododd aelod bryder yng nghyswllt asesiadau risg iechyd a diogelwch mewn ysgolion pan mae'r disgyblion yn yr ysgol am 8 o'r gloch ar gyfer clwb brecwast cyn i'r ysgol ddechrau ac ar adegau egwyl a chinio lle nad oes goruchwyliaeth.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr orchwyl o adolygu trefniadau i asesu risgiau iechyd a diogelwch wedi ei rannu i ddau archwiliad, sef trefniadau corfforaethol y Cyngor, ac Ysgolion. Bydd yr archwiliad ar drefniadau mewn ysgolion yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf; gellid trafod y mater yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau a byddai ffigyrau damwain yn yr ysgolion yn cael sylw bryd hynny.

**Polisi Buddiannau Swyddogion**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai'r prif reswm bod yr archwiliad wedi derbyn categori barn 'C' yw oherwydd bod angen diweddaru'r polisi i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol sydd wedi dod i rym ers dros 3 mlynedd bellach a gellir trafod yr archwiliad yn y gweithgor.

**Rhoddion a Lletygarwch Aelodau**

Tynnwyd sylw'r aelodau bod yr archwiliad wedi adnabod arfer dda. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr Uwch Reolwr fod angen i'r Pwyllgor Archwilio, wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol, fod yn ymwybodol fod yr archwiliwr ond yn gallu edrych ar yr hyn mae'r aelodau yn datgan ac mai'r camau a ellir eu cymryd i sicrhau priodoldeb yw sicrhau bod yr aelodau yn ymwybodol o'r gofynion i gyflwyno'r wybodaeth a'u bod yn ymwybodol o'r polisi.

**Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol)**

Nodwyd y derbyniwyd cais penodol i edrych ar drwyddedau meddalwedd ar draws y Cyngor oherwydd achos lle 'roedd un cwmni yn honni bod y Cyngor wedi torri amodau'r drwydded a thalwyd costau trwydded ychwanegol, yn dilyn negodi. Pwrpas yr archwiliad oedd ceisio lleiafu'r risg o gwmnïau eraill yn gwneud yr un fath.

**Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)**

Nodwyd y cynhaliwyd yr adolygiad yma drwy ohebu gyda swyddogion o'r Adran Addysg a chwmni Cynnal ynghyd â chasglu gwybodaeth gan yr ysgolion ar ffurf holiadur. Siomedig oedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan yr ysgolion. Nodwyd bod hi'n bwysig i ysgolion i gymryd trwyddedau meddalwedd i ystyriaeth oherwydd gellir cael dirywion sylweddol os nad yw trwydded defnydd busnes addas gan yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf i 31 Awst 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' –**
**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell, Bob Wright a Mr John Pollard.**

**8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 30 Awst 2013 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 56 |
| Crewyd papurau gwaith | 4 |
| Gwaith maes ar y gweill | 20 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 23 |
| **Cyfanswm** | **107** |

Nodwyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Awst yn is na'r targed ac na fyddai 15 archwiliad wedi ei ryddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 38 allan o 107, sef 35%. Nodwyd bod nifer o swyddi gwag yn yr uned ar hyn o bryd a bod

trefniadau yn eu lle i edrych ar opsiynau ran llenwi swyddi a bod holl staff y gwasanaeth yn ymrwymedig i gwblhau'r targed ar gyfer y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.30am

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 Rhagfyr 2013** |
| TEITL: | **Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno'r trefniadau adrodd er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw **adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Mesur yn datgan bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn cyflawni hyn:

- "*adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb*"; a
- "*bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath*".

1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol:

- Adroddiadau ESTYN, CyMAL, Archifau Cenedlaethol
- Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
- Adroddiadau Achlysurol Swyddfa Archwilio neu gan gyrff archwilio eraill

1.1 Yn y gorffennol, cyflwynwyd cofrestr gyflawn o adroddiadau archwilio allanol i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis i hwyluso gwaith y Pwyllgor a'i alluogi i gydymffurfio â'r gofyn i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoi crynodeb byr i'r Cabinet.

1.2 Bellach, er mwyn cryfhau gallu'r Pwyllgor Archwilio i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, bwriedir canolbwyntio ar y prif adroddiadau sef:

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau AGGCC
- Adroddiadau Blynyddol SAC

Byddai'r gofrestr gyflawn yn parhau ar gael i aelodau drwy gysylltu â mi.

1.5 Awgrymir hefyd y dylid trafod trefniadau craffu a dal i gyfrif yr adroddiadau uchod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion Craffu. Mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu'r prif adroddiadau hyn gan osgoi unrhyw ddyblygu neu aneglurder yn y maes. Gellid adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio nesaf unrhyw argymhellion am drefniadau cadarn ac addas i bwrpas.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio

i) Gymeradwyo'r drefn newydd o adrodd a chanolbwyntio ar y prif adroddiadau a nodir

ii) Gymeradwyo'r cynnig i drafod y dull gorau o graffu a dal i gyfrif y prif adroddiadau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion Craffu 13 Rhagfyr.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2013/14 –<br>ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2013)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2013/14.

**3.** Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 26 Tachwedd o'r Cabinet.

**4.** Erbyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 26 Tachwedd fel arsyllwyr, a bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" ar 3 Rhagfyr.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet (cyflwynir "ar y bwrdd" ar 3 Rhagfyr), a sylwebu fel bo angen.

**6.** Yn yr un modd â'r gwasanaethau a adolygir lle mae adroddiadau Archwilio Mewnol yn adnabod risgiau, os yw'r Pwyllgor Archwilio o'r farn fod risg sylweddol gyda chyllideb benodol, gellid gwahodd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran perthnasol i gyfarfod Gweithgor o'r Pwyllgor Archwilio.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
26 TACHWEDD 2013

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2013)

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2013) o'r Gyllideb Refeniw, a gofynnir i'r Cabinet ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, ac ystyried yr argymhellion gerbron, cyn penderfynu ar gamau priodol i reoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol.

---

**Cyflwyniad / Cefndir**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2013/14.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2013/14, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

Yn dilyn gorwariant / diffyg incwm yn 2012/13, mae sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth ac Incwm Parcio wedi sefydlogi eleni. Fodd bynnag, mae pryder am ambell gyllideb (£ isod gorwariant net 2013/14):

- **Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwastraff £536k** (a pwysau ar gyllideb 2014/15)
- **Darparu a Hamdden – Staff Cartrefi £290k a Gwerthiannau Hamdden £76k**
- **Addysg – Diswyddo ac Ymddeol Cynnar mewn Ysgolion £259k**

Nodaf fod gorwariant hefyd yn Tai (Grantiau) a Morwrol (Hafan), ond mae camau ar droed i ddelio gyda'r materion rheiny.

Yn gwrthbwyso'r pryderon uchod, mae peth hyblygrwydd ar rai cyllidebau corfforaethol, sef Treth Cyngor (£520k), a Banc Heritable (£221k).

Sylwer o'r crynhoad yn Atodiad 1 fod sawl Adran yn gorwario eleni. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi defnyddio adnoddau corfforaethol er mwyn digolledu rhai Adrannau. Erbyn hyn, gan fod setliad heriol 2014/15 yn ein gyrru i ddefnyddio balansau i bontio'r gyllideb, mae ein hyblygrwydd corfforaethol yn fwy cyfyngedig nac erioed. Felly, mae amheuaeth cryf os byddwn yn digolledu'r cwbl o orwariant unrhyw Adrannau, a lle'n briodol disgwylir gweld tystiolaeth o gamau rheolaethol sy'n lleihau'r gorwariant yn ystod gweddill 2013/14.

## Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol 18 Chwefror 2014 ar yr adolygiad 3ydd chwarter.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

## Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**
Fel mae'r esgid yn gwasgu, mae rheolaeth gyllidol gadarn yn mynd yn fwy anodd ond hefyd yn fwy pwysig. Fel y noda'r adroddiad, mae natur y setliad tebygol ar gyfer 2014/15 yn golygu na fydd gennym y math o hyblygrwydd fu gennym yn y gorffennol i ddigolledu mewn sefyllfaoedd o orwariant. Mae'n amlwg felly bod pwysau mawr ar Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran i gydbwyso gwariant rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

## Atodiadau
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

# Cyllideb Refeniw 2013/14 Adolygiad Ail Chwarter

## Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2013/14 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau | Gor/ (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 | £ '000 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | 1,018 | (568) | 450 |
| **Addysg** | 89 | 0 | 89 |
| **Economi a Chymuned** | 74 | 0 | 74 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 447 | 0 | 447 |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | (35) | 0 | (35) |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 11 | 0 | 11 |
| **Adnoddau Dynol** | (7) | 0 | (7) |
| **Cyllid** | (23) | 0 | (23) |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | 38 | 0 | 38 |
| **Gofal Cwsmer** | (26) | 0 | (26) |
| **Strategol a Gwella** | (93) | 0 | (93) |
| **Tim Rheoli Corfforaethol** | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | (1,123) | 568 | (555) |
| **Cyfansymiau (net)** | 370 | 0 | 370 |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

**Maes:-** **Gwasanaeth Gweithredol**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,710** | **1,754** | **1,838** | **84** | | **84** |

Sefyllfa gorwariant, yn bennaf oherwydd costau staffio unwaith ac am byth uwch.

**Maes:-** **Gwasanaethau Cefnogol Plant**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **7,709** | **7,712** | **7,519** | **(193)** | | **(193)** |

Erbyn hyn rhagwelir tanwariant (£193k) ar y gyllideb yma, sy'n newid sylweddol o'r sefyllfa gorwariant o £20k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf. Mae'r tanwariant (£193k) yma'n cynnwys tanwariant o (£146k) ar Leoliadau All-Sirol, tanwariant o (£25k) ar Maethu drwy Asiant (yn dilyn newidiadau yn y trefniadau comisiynu), ac arbedion staffio unwaith ac am byth o (£31k).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

**Maes:-** **Gwasanaeth Ôl-16**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **960** | **959** | **1,067** | **108** | | **108** |

Sefyllfa gorwariant, yn bennaf oherwydd gwariant uwch o £102k ar Gynlluniau Cefnogol o ganlyniad i nifer o achosion gydag anghenion cefnogaeth llawer uwch nac arfer.

**Maes:-** **Eraill (Plant a Theuluoedd)**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,675** | **3,690** | **3,696** | **6** | | **6** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaethau Pobl Hŷn**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **18,602** | **18,173** | **18,897** | **724** | **(568)** | **156** |

Rhagwelir sefyllfa gorwariant gros o £724k eleni, sy'n gynnydd o £559k ers y chwarter cyntaf. Mae'r gorwariant net yn cynnwys gorwariant o £346k ar gost Preswyl a Nyrsio (sef cynydd o £552k mewn Nyrsio, a gostyngiad o (£206k) mewn Preswyl), wedi'i lleddfu gan gynnydd o (£160k) mewn incwm cyfraniadau. Yn ogystal, mae'r gorwariant net yn cynnwys cynnydd o £793k mewn gwariant ar Ofal Cartref ac yn adlewyrchu effaith cynnydd demograffeg a chynnydd o (£295k) mewn incwm perthnasol (sef derbyniad grant o £277k gan Lywodraeth Cymru a derbyniad o (£18k) mewn cyfraniadau ychwanegol), ynghyd â gorwariant o £40k ar Lety Cefnogol.

Ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf dderbyniwyd gan yr Adran, mae newidiadau demograffeg diweddar wedi gorfodi cynnydd mewn gwariant ar Wasanaethau Pobl Hyn ar gyfer Preswyl a Nyrsio a Gofal Cartref. Wrth lunio'r gyllideb, mae'r Cyngor yn gwneud darpariaeth gyllidol penodol ar gyfer rhagolygon newidiadau demograffeg. Yn yr amgylchiadau (wedi derbyn gwybodaeth penodol yn ddiweddar am y niferoedd), **argymhellir** fod (£568k) o gyllideb ychwanegol yn cael ei ryddhau i'r Adran ac i ddod o'r Gyllideb Wrth Gefn.

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Corff**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,967** | **1,967** | **1,854** | **(113)** | | **(113)** |

Rhagwelir sefyllfa tanwariant net ar y gyllideb yma, sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf tanwariant o (£103k) ar Ofal Cartref.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **12,822** | **12,984** | **13,105** | **121** | | **121** |

Gostyngiad (£82k) o'r gorwariant £203k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf. Mae'r gorwariant net £121k yn adlewyrchu nifer o wahaniaethau sy'n cynnwys gofyn ychwanegol am rai gwasanaethau, ac eraill ble mae'r pwysau wedi ysgafnhau. Cynhwysir gorwariant o £110k ar Breswyl a Nyrsio Annibynnol, tanwariant o (£62k) ar y Cynllun Lleoli Oedolion, gorwariant o £59k ar Lety Cefnogol, gorwariant o £116k ar Wasanaethau Dydd, a thanwariant o (£107k) ar Gynlluniau Cefnogol.

**Maes:-** **Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,309** | **3,306** | **3,254** | **(52)** | | **(52)** |

Gostyngiad £58k o'r tanwariant (£110k) a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf. Mae'r tanwariant net (£52k) yn adlewyrchu gorwariant o £85k ar Breswyl a Nyrsio, tanwariant o (£78k) ar Lety Cefnogol a thanwariant o (£41k) ar Gefnogaeth a Chynlluniau Eraill.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Eraill (Oedolion)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **2,979** | **3,045** | **3,046** | **1** | | **1** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Tai**

**Maes:-** **Uned Grantiau ac Ardaloedd Adnewyddu**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,641** | **2,710** | **2,715** | **5** | | **5** |

Rhagwelir gorwariant net o £5k, yn adlewyrchu effaith lleihad yn y rhaglen cyfalaf perthnasol o ganlyniad i ostyngiad yn yr elfen Grant Ardaloedd Adnewyddu gan Llywodraeth Cymru. Mae'r grant, gyda chyfran ohono'n ariannu swyddi, wedi bod yn gostwng ers nifer o flynyddoedd, a rhagwelir gostyngiad pellach ar gyfer 2014/15, wedyn dim derbyniad grant o gwbl erbyn 2015/16. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar lefel staffio'r uned berthnasol, ac yn debygol o arwain at sefyllfa diswyddo yn 2014/15 a 2015/16. Mae'r Adran yn gweithredu a chynllunio'n briodol ar gyfer y sefyllfa tebygol yma.
Ar gyfer eleni, llwyddwyd i isafu effaith y golled grant drwy ddenu gwaith dros-dro arall, ynghyd â defnyddio adnoddau cyllidol eraill o fewn yr Adran.

**Maes:-** **Digartrefedd**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **729** | **733** | **730** | **(3)** | | **(3)** |

Sefyllfa lled-niwtral sy'n cynnwys nifer o fân wahaniaethau, ond yn bennaf mae incwm ychwanegol o (£41k) ar y Cynllun Lesu Tai yn dilyn llwyddiant i gynyddu'r gyfran rhent a gasglir, ond hefyd gorwariant o £39k ar Hosteli yn dilyn gostyngiad mewn derbyniad incwm rhent oherwydd diffyg defnydd llawn, ynghyd â gostyngiad o £20k mewn elfen berthnasol o'r rhaglen Cefnogi Pobl.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Tai)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,149** | **1,131** | **1,127** | **(4)** | | **(4)** |

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

## ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN

**Maes:-** **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **(45)** | **257** | **302** | | **302** |

Cynnydd o £152k ers rhagwelwyd sefyllfa gorwariant o £150k yn yr adolygiad chwarter cyntaf. Mae'r gorwariant £302k yn cynnwys yn bennaf, gorwariant o £290k ar Gartrefi Preswyl Pobl Hŷn, ac yn arbennig costau staffio ychwanegol am nifer o resymau, tanwariant o (£29k) ar Gofal Dydd, gorwariant o £30k ar Ofal Cymunedol, a gorwariant o £11k ar Lety Cefnogol.

**Maes:-** **Gwasanaeth Hamdden**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,472** | **4,379** | **4,471** | **92** | | **92** |

Rhagwelir gorwariant o £92k sy'n gynnydd o £47k ers rhagwelwyd sefyllfa gorwariant o £45k yn yr adolygiad chwarter cyntaf. Mae gorwariant o £117k ar Gyfleusterau Hamdden (cynnydd o £72k) sy'n cynnwys gorwariant o £45k oherwydd methiant i wireddu un cynllun arbedion, gorwariant o £45k ar amrywiol benawdau gwariant eraill, tanwariant o (£29k) ar gyflogau, a thanwariant o (£24k) ar fwydydd a nwyddau. Yn ychwanegol mae diffyg o £76k mewn incwm o werthiannau, ond derbyniad incwm ychwanegol o (£36k) mewn ffioedd am gyfleusterau, a thanwariant o (£24k) ar Ddatblygu Chwaraeon.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **0** | **(12)** | **10** | **22** | | **22** |

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,145** | **4,311** | **4,229** | **(82)** | | **(82)** |

Sefyllfa Tanwariant sy'n cynnwys nifer o fân wahaniaethau, ond yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd -** | | | | | | |
| Gwasanaeth Gweithredol | **1,710** | **1,754** | **1,838** | **84** | **0** | **84** |
| Gwasanaethau Cefnogol Plant | **7,709** | **7,712** | **7,519** | **(193)** | **0** | **(193)** |
| Gwasanaeth Ôl-16 | **960** | **959** | **1,067** | **108** | **0** | **108** |
| Eraill (Plant a Theuluoedd) | **3,675** | **3,690** | **3,696** | **6** | **0** | **6** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | **14,054** | **14,115** | **14,120** | **5** | **0** | **5** |
| **Gwasanaeth Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | **18,602** | **18,173** | **18,897** | **724** | **(568)** | **156** |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | **1,967** | **1,967** | **1,854** | **(113)** | **0** | **(113)** |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **12,822** | **12,984** | **13,105** | **121** | **0** | **121** |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **3,309** | **3,306** | **3,254** | **(52)** | **0** | **(52)** |
| Eraill (Oedolion) | **2,979** | **3,045** | **3,046** | **1** | **0** | **1** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Oedolion** | **39,679** | **39,475** | **40,156** | **681** | **(568)** | **113** |

**(parhad isod)**

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Tai** | | | | | | |
| Uned Grantiau ac Ardaloedd Adnewyddu | **2,641** | **2,710** | **2,715** | **5** | **0** | **5** |
| Digartrefedd | **729** | **733** | **730** | **(3)** | **0** | **(3)** |
| Eraill (Tai) | **1,149** | **1,131** | **1,127** | **(4)** | **0** | **(4)** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Tai** | **4,519** | **4,574** | **4,572** | **(2)** | **0** | **(2)** |
| **Gwasanaeth Darparu** | | | | | | |
| Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net) | **0** | **(45)** | **257** | **302** | **0** | **302** |
| Gwasanaeth Hamdden | **4,472** | **4,379** | **4,471** | **92** | **0** | **92** |
| Eraill (Darparu a Hamdden) | **0** | **(12)** | **10** | **22** | **0** | **22** |
| **Cyfanswm Darparu** | **4,472** | **4,322** | **4,738** | **416** | **0** | **416** |
| Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden) | **4,145** | **4,311** | **4,229** | **(82)** | **0** | **(82)** |
| **Cyfanswm Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | **66,869** | **66,797** | **67,815** | **1,018** | **(568)** | **450** |

**Cyffredinol -** Mae'r Adran yn parhau hefo nifer o fesurau i geisio gostwng lefel y gorwariant uchod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **303** | **303** | **562** | **259** | | **259** |

Ac eithrio ymrwymiadau hanesyddol, rhagwelir eleni ymrwymiadau newydd o £539k ar y pennawd yma, sy'n cymharu â gwariant o £113k yn 2012/13, gyda dim ond £65k eleni yn berthnasol i'r broses trefniadaeth ysgolion. Mae'r cynnydd yma wedi arwain at sefyllfa gorwariant o £259k, a bwriedir ddefnyddio cronfa penodol wrth gefn i liniaru'r sefyllfa am eleni.
Yn yr amgylchiadau gofynnir i'r Pennaeth Addysg adolygu'r amgylchiadau perthnasol ac i sicrhau trefniadau rheolaethol priodol o'r gyllideb. Adroddir ymhellach ar y cynnydd yma yn yr adolygiad chwarterol nesaf.

**Maes:-** **Integreiddio Disgyblion ADY**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **189** | **188** | **143** | **(45)** | | **(45)** |

Yn unol â'r sefyllfa a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, sef tanwariant net o (£45k), a hyn ar ôl lleihau'r gyllideb parhaol o (£100k) ar gyfer disgwyliadau arbedion o'r Adolygiad strategol arfaethedig.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Ffioedd All-Sirol**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,056** | **1,056** | **1,056** | **0** | | **0** |

Fe ragwelwyd sefyllfa gorwariant o £93k yn y chwarter cyntaf, ond bellach drwy adlewyrchu effaith newidiadau yn y flwyddyn academaidd newydd o fis Medi 2013, rhagwelir sefyllfa niwtral yn 2013/14.

**Maes:-** **Uned Blynyddoedd Cynnar**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **773** | **773** | **723** | **(50)** | | **(50)** |

Sefyllfa sy'n parhau yn unol â'r darlun a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, sef tanwariant o (£50k), yn adlewyrchu gostyngiad yn y lefel gwariant.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Trefniadau Rheolaeth**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,003** | **4,039** | **3,971** | **(68)** | | **(68)** |

Rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£68k) ar y pennawd yma, yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth ynghyd â llwyddiant i ddenu incwm grant ychwanegol.

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **14,326** | **14,014** | **14,007** | **(7)** | | **(7)** |

**Maes:-** **Ysgolion Datganoledig**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **68,619** | **68,619** | **68,619** | **0** | | **0** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** | **303** | **303** | **562** | **259** | **0** | **259** |
| **Integreiddio Disgyblion ADY** | **189** | **188** | **143** | **(45)** | **0** | **(45)** |
| **Ffioedd All-Sirol** | **1,056** | **1,056** | **1,056** | **0** | **0** | **0** |
| **Uned Blynyddoedd Cynnar** | **773** | **773** | **723** | **(50)** | **0** | **(50)** |
| **Trefniadau Rheolaeth** | **4,003** | **4,039** | **3,971** | **(68)** | **0** | **(68)** |
| **Eraill** | **14,326** | **14,014** | **14,007** | **(7)** | **0** | **(7)** |
| **Ysgolion Datganoledig** | **68,619** | **68,619** | **68,619** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | **89,269** | **88,992** | **89,081** | **89** | **0** | **89** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

**Maes:-** **Morwrol**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(51)** | **(53)** | **142** | **195** | | **195** |

Bu gorwariant o £155k yn erbyn y gyllideb yma yn 2012/13, ond drwy wneud defnydd o gronfa tanwariant blaenorol yr Adran, fe'i ostyngwyd i orwariant net o £44k. Wrth adolygu'r gyllideb ar gyfer eleni, fe ostyngwyd y targed incwm perthnasol ar gyfer Hafan Pwllheli o £109k, ac hefyd gostyngwyd targed incwm Harbyrau o £45k.
Yn y chwarter cyntaf, fe ragwelwyd sefyllfa gorwariant net o £310k, yn bennaf oherwydd gostyngiad incwm o £360k a lleihad gwariant ar nifer o benawdau o (£50k). Bellach, yn dilyn hâf weddol lwyddianus, fe welir o'r rhagolygon diweddaraf fod y golled incwm yn ei gyfanrwydd wedi gostwng i £268k (gyda sefyllfa yr Hafan Pwllheli yn dangos gostyngiad yn y golled incwm o £350k yn y chwarter cyntaf, i ddiffyg incwm o £260k), a'r lleihad gwariant wedi cynyddu i (£74k) i roddi gorwariant net o £195k.
Mae'r Pennaeth Economi a Chymuned a'r Aelod Cabinet dros Economi yn bwriadu adrodd i'r Cabinet mis Rhagfyr ar y ffordd ymlaen gyda Hafan Pwllheli.

**Maes:-** **Cefnogi Busnes**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **121** | **81** | **24** | **(57)** | | **(57)** |

Yn unol â rhagolygon y chwarter cyntaf, amcangyfrifir tanwariant unwaith ac am byth o (£57k) ar y pennawd yma, o ganlyniad i gyflawni arbedion ymlaen llaw o'r rhaglen.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

**Maes:-** **Sgiliau a Mentergarwch**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **26** | **35** | **(5)** | **(40)** | | **(40)** |

Rhagwelir tanwariant ar y pennawd yma, yn bennaf oherwydd arbedion trosiant staff unwaith ac am byth.

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **6,328** | **6,517** | **6,493** | **(24)** | | **(24)** |

Sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf tanwariant o (£20k) ar y Gwasanaeth Ieuenctid, yn dilyn llwyddiant i gyflawni elfennau o'r rhaglen arbedion ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Morwrol** | **(51)** | **(53)** | **142** | **195** | **0** | **195** |
| **Cefnogi Busnes** | **121** | **81** | **24** | **(57)** | **0** | **(57)** |
| **Sgiliau a Mentergarwch** | **26** | **35** | **(5)** | **(40)** | **0** | **(40)** |
| **Eraill** | **6,328** | **6,517** | **6,493** | **(24)** | **0** | **(24)** |
| **Cyfanswm Adran Economi** | **6,424** | **6,580** | **6,654** | **74** | **0** | **74** |

Cadarnhaf fod yr Adran eisoes yn ystyried gwahanol fesurau ac opsiynau er mwyn clirio'r sefyllfa gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys defnydd o wahanol gronfeydd penodol sydd wrth gefn gan yr Adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Gwaredu Gwastraff**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,627** | **3,627** | **3,771** | **144** | | **144** |

Bu gwelliant o (£98k) yn y sefyllfa gorwariant o £241k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, ond mae pwysau yn parhau ar y pennawd oherwydd methiant i gyflawni gostyngiad yn y maint o wastraff a gynhyrchir yn unol â'r rhaglen wreiddiol, gan achosi costau treth tir lenwi uwch. Byddai penderfyniad buan ar amlder casglu yn lleihau'r costau gwaredu gwastraff erbyn 2014/15.

**Maes:-** **Safleoedd Trosglwyddo a Thrin**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,074** | **1,074** | **1,128** | **54** | | **54** |

Sefyllfa gorwariant net o £54k, yn cynnwys gorwariant oherwydd methiant i gyflawni'r targed ailgylchu bwyd, ynghyd a methiant i gyflawni gwahanol dargedau incwm. Fe liniarwyd rhywfaint ar y sefyllfa drwy ddefnyddio sefyllfa ffafriol hefo rhai ffynonhellau cyllidol eraill o fewn yr Adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Casglu Gwastraff ac Ailgylchu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,221** | **4,283** | **4,436** | **153** | | **153** |

Sefyllfa gorwariant o £153k sydd wedi cynyddu £69k ers ein rhagolygon chwarter cyntaf, ac yn cynnwys gostyngiad mewn incwm casglu gwastraff masnachol o £75k, costau casglu coed uwch o £51k, costau casglu gwastraff gwyrdd a delio hefo ysgubion uwch o £76k, a gostyngiad mewn derbyniad Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaladwy o £105k. Fodd bynnag, fe welwyd hefyd ostyngiad mewn costau casglu deunyddiau ailgylchu (£75k), ynghyd â chyfuniad o ddefnydd o sefyllfa ffafriol hefo rhai ffynonhellau cyllidol adrannol eraill, a lleihad mewn gwariant ar rai penawdau eraill (£87k).
Cyfeirir ymhellach at y sefyllfa colled grant isod, ar ddiwedd y rhan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o'r adroddiad yma.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Safleoedd Gwaredu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,821** | **2,581** | **2,782** | **201** | | **201** |

Bu gostyngiad sylweddol o (£252k) yn y gorwariant o £454k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn trefniadau a chostau gweithredol. Ar y tri safle perthnasol, sef Ffridd Rasus, Llwyn Isaf a Chilgwyn, mae'r gorwariant £201k yn cynnwys gwariant uwch o £117k oherwydd elifiant, a cholled incwm breindaliadau £84k.
Cyfeirir ymhellach at yr agwedd yma hefyd ar ddiwedd y rhan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o'r adroddiad yma.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Eraill (Gwastraff)** | **1,115** | **1,428** | **1,412** | **(16)** | | **(16)** |

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Profedigaeth** | **355** | **368** | **298** | **(70)** | | **(70)** |

Rhagwelir sefyllfa tanwariant yn bennaf oherwydd derbyniad incwm ychwanegol gan y gwasanaeth yma.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Maes:-** | **Tiroedd Agored** | **727** | **710** | **762** | **52** | | **52** |

Rhagwelir sefyllfa gorwariant eleni, yn bennaf oherwydd llithriad gyda chynllun arbedion perthnasol i 2014/15.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **14,573** | **14,710** | **14,639** | **(71)** | | **(71)** |

Sefyllfa tanwariant net ar nifer o benawdau eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Priffyrdd (£16k), Gorfodaeth Stryd (£8k) a Gwasanaethau Bwrdeistrefol eraill (£44k).

Erbyn hyn, rhagwelir bydd cyfanswm gorwariant net yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn £447k, sy'n ostyngiad o (£353k) ers y darlun chwarter cyntaf. Fel nodwyd yng Ngorffennaf, bu'n arferiad yn y gorffennol i'r Cabinet gymeradwyo cyllideb ychwanegol i'r Adran mewn amgylchiadau ble gwelir costau elifiant ychwanegol a gostyngiad mewn incwm breindaliadau. Yn ychwanegol, bu'n arferiad yn y gorffennol i gynorthwyo'r Adran ble gwelir colled grant penodol.
Yn yr amgylchiadau, pe byddai'r Cabinet yn dymuno parhau hefo'r drefniant yma, fe olygai cymeradwyo £306k o gyllideb ychwanegol i'r Adran, ac fyddai'n gostwng y sefyllfa gorwariant Adrannol i lawr i £141k. Eto, yn unol â'r drefn arferol, fe wneir argymhelliad penodol ar y mater yn hwyrach yn y flwyddyn.
Yn y cyfamser, mae'r Adran yn cymryd camau i geisio gostwng y gorwariant a ragwelir, ac fe adroddir ymhellach ar rhain yn y chwarter nesaf.
Amcangyfrifir fod effaith parhaol yr holl wahaniaethau uchod, ynghyd â newid mewn gofynion perthnasol, oddeutu £851k, sydd yn golygu pwysau ar gyllideb 2014/15.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys yr Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaredu Gwastraff | **3,627** | **3,627** | **3,771** | **144** | **0** | **144** |
| Safleoedd Trosglwyddo a Thrin | **1,074** | **1,074** | **1,128** | **54** | **0** | **54** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **4,221** | **4,283** | **4,436** | **153** | **0** | **153** |
| Safleoedd Gwaredu | **2,821** | **2,581** | **2,782** | **201** | **0** | **201** |
| Eraill (Gwastraff) | **1,115** | **1,428** | **1,412** | **(16)** | **0** | **(16)** |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff** | **12,858** | **12,993** | **13,529** | **536** | **0** | **536** |
| **Gwasanaethau Profedigaeth** | **355** | **368** | **298** | **(70)** | **0** | **(70)** |
| **Tiroedd Agored** | **727** | **710** | **762** | **52** | **0** | **52** |
| **Eraill** | **14,573** | **14,710** | **14,639** | **(71)** | **0** | **(71)** |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeietrefol** | **28,513** | **28,781** | **29,228** | **447** | **0** | **447** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Rheolaeth Datblygu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **533** | **530** | **541** | **11** | | **11** |

Rhagwelir gorwariant net o £11k, yn cynnwys costau staffio uwch o £52k, yn bennaf oherwydd absenoldebau salwch tymor hîr, cost o £48k ychwanegol i ddigideiddio ffeiliau cynllunio, ond hefyd tanwariant ar gostau teithio (£27k) ac incwm ffioedd ychwanegol (£62k).

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gorfodaeth (gwaith ar y stryd) a Thrafnidiaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **523** | **528** | **525** | **(3)** | | **(3)** |

Rhagwelir tanwariant net o (£3k), yn cynnwys tanwariant staffio unwaith ac am byth (£78k) ac incwm ychwanegol (£58k), llai sawl cyfraniad tuag at amrywiol gynlluniau cyfalaf.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

## ADRAN: RHEOLEIDDIO

**Maes:-** **Gwasanaeth Parcio**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(710)** | **(712)** | **(709)** | **3** | | **3** |

Rhagwelir gorwariant o £3k, yn cynnwys amcan o ostyngiad mewn derbyniad ffioedd parcio erbyn diwedd y flwyddyn o £51k, ynghyd â thanwariant (£53k) oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth.

**Maes:-** **Gwarchod y Cyhoedd**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,107** | **2,083** | **2,043** | **(40)** | | **(40)** |

Rhagwelir tanwariant (£40k) yn cynnwys arbedion staffio (£17k) drwy wireddu cynllun arbedion 2014/15 ymlaen llaw, ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a cyflenwadau (£17k) a chostau teithio (£6k).

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **13,404** | **13,405** | **13,399** | **(6)** | | **(6)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio (Cynllunio,Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)** | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Rheolaeth Datblygu** | **533** | **530** | **541** | **11** | **0** | **11** |
| **Gorfodaeth (gwaith ar y stryd) a Thrafnidiaeth** | **523** | **528** | **525** | **(3)** | **0** | **(3)** |
| **Gwasanaeth Parcio** | **(710)** | **(712)** | **(709)** | **3** | **0** | **3** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | **2,107** | **2,083** | **2,043** | **(40)** | **0** | **(40)** |
| **Eraill** | **13,404** | **13,405** | **13,399** | **(6)** | **0** | **(6)** |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | **15,857** | **15,834** | **15,799** | **(35)** | **0** | **(35)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Ffyrdd a Pheirianneg** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(200)** | **(314)** | **(146)** | **168** | | **168** |

Yn dilyn blwyddyn annodd iawn mewn termau ariannol y llynedd, fe welwyd llwyddiant i gyfyngu'r gorwariant net ar y pennawd yma erbyn diwedd 2012/13 i £370k. Ar gyfer eleni, fe ostyngwyd targed cyllideb incwm y gwasanaeth o £250k, ac yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau a phrosesau ariannol yr Adran, mae cynllun gweithredu mewn lle er mwyn ymateb i sawl darganfyddiad. Yn yr adolygiad chwarter cyntaf eleni, rhagwelwyd sefyllfa gorwariant net o £215k. Erbyn hyn, bu gwelliant o (£47k) sy'n golygu fod ein rhagamcan o'r gorwariant i lawr i £168k, yn cynnwys gostyngiad incwm ffioedd £141k, gorwariant costau teithio £7k, a gorwariant ar wasanaethau a chyflenwadau £20k.

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Rheolaeth Adeiladu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **316** | **330** | **308** | **(22)** | | **(22)** |

Sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys incwm ffioedd ychwanegol o (£29k).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

**Maes:-** **Uned Adeiladu**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **150** | **15** | **(135)** | | **(135)** |

Rhagwelir tanwariant oherwydd cynnydd mewn derbyniad incwm ffioedd mewnol (disgwylir cyfanswm incwm o (£753k) yn erbyn cyllideb incwm o (£618k))

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **799** | **892** | **892** | **0** | | **0** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Ffyrdd a Pheirianneg** | **(200)** | **(314)** | **(146)** | **168** | **0** | **168** |
| **Rheolaeth Adeiladu** | **316** | **330** | **308** | **(22)** | **0** | **(22)** |
| **Uned Adeiladu** | **0** | **150** | **15** | **(135)** | **0** | **(135)** |
| **Eraill** | **799** | **892** | **892** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Ymgynghoriaeth** | **915** | **1,058** | **1,069** | **11** | **0** | **11** |

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

### ADRAN: ADNODDAU DYNOL

| Adran:- Adnoddau Dynol | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Gwariant | **3,612** | | | | | |
| | Incwm ac Ad-daliadau | **(3,439)** | | | | | |
| | Cyfanswm Net | **173** | **121** | **114** | **(7)** | | **(7)** |

Rhagwelir tanwariant o (£7k) am y tro ac yn cynnwys gorwariant o £12k gan yr Uned Rheolaeth oherwydd cyfraniadau ychwanegol i sefydliadau lleoli gweithwyr anabl, gorwariant o £14k gan Iechyd a Diogelwch yn bennaf oherwydd gwariant ychwanegol ar ffioedd cwnsela, a tanwariant o (£30k) gan yr Uned Cefnogol yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth.
Yn ychwanegol disgwylir fân danwariant gan yr Uned Hyfforddiant. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn awyddus i sicrhau bydd unrhyw danwariant yn y maes hyfforddiant erbyn diwedd 2013/14 yn cael ei neilltuo mewn cronfa yn benodol ar gyfer cynnal hyfforddiant yn 2014/15 a thu hwnt. Fe adroddir ymhellach ar hyn, fel yn briodol, erbyn diwedd y flwyddyn.

### ADRAN: CYLLID

| Adran:- Cyllid | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Gwariant | **7,468** | | | | | |
| | Incwm ac Ad-daliadau | **(6,315)** | | | | | |
| | Cyfanswm Net | **1,153** | **1,147** | **1,124** | **(23)** | | **(23)** |

Sefyllfa tanwariant net o (£23k) sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig, arbedion staffio unwaith ac am byth (£95k), tanwariant costau trafnidiaeth (£20k), costau meddalwedd a defnydd systemau technoleg gwybodaeth ychwanegol o £50k, a lleihad £46k yn y Sybsidi (grant) ar gyfer Gweinyddu Budd-daliadau Tai a Treth Cyngor.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

### ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL

| | | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Democratiaeth a Chyfreithiol** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **3,197** | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(2,584)** | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **613** | **625** | **663** | **38** | | **38** |

Rhagwelir sefyllfa gorwariant net o £38k sy'n cynnwys gorwariant o £66k gan yr Uned Argraffdy. Yn dilyn rhesymoli ac ail strwythuro'r Argraffdy llynedd, cytunwyd ar gynllun busnes heriol ar gyfer eleni, gyda'r bwriad i gefnogi'r Uned yn ariannol dros y cyfnod trawsnewid, tra byddai'r Uned yn parhau i geisio cynyddu ei ffynhonell incwm. Bwriedir gwneud argymhelliad ar unrhyw ychwanegiad at gyllideb yr Adran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
Mae'r gorwariant net £38k hefyd yn cynnwys costau staffio £15k uwch oherwydd absenoldeb mamolaeth, derbyniad incwm ychwanegol o (£20k) o pridiannau tir, tanwariant o (£11k) ar wasanaethau a chyflenwadau, a tanwariant o (£11k) o ganlyniad i wireddu cynllun arbediad yn gynnar.

### ADRAN: GOFAL CWSMER

| | | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Gofal Cwsmer** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Gwariant | **13,018** | | | | | |
| | | Incwm ac Ad-daliadau | **(10,992)** | | | | | |
| | | Cyfanswm Net | **2,026** | **2,118** | **2,092** | **(26)** | | **(26)** |

Rhagwelir sefyllfa tanwariant net o (£26k) yn cynnwys tanwariant o (£109k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth ynghyd a llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol, tanwariant o (£34k) gan yr Uned Gyfathrebu oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, gorwariant o £76k ar y Gwasanaeth Teleffon oherwydd methiant i gyflawni cynllun arbediad yn llawn, gorwariant o £16k gan yr Uned Argyfwng oherwydd llithriad gyda chynllun i arbed, a gorwariant o £23k gan yr Uned Eiddo oherwydd gwariant ychwanegol ar wasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: STRATEGOL A GWELLA**

**Adran:-** **Strategol a Gwella**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant | **8,433** | | | | | |
| Incwm ac Ad-daliadau | **(7,710)** | | | | | |
| Cyfanswm Net | **723** | **929** | **836** | **(93)** | | **(93)** |

Rhagwelir tanwariant net o (£93k) sy'n cynnwys tanwariant o (£27k) gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth, oherwydd derbyniad incwm ychwanegol, tanwariant o (£32k) gan yr Uned Caffael ac E-Gaffael oherwydd arbedion trosiant staffio unwaith ac am byth, tanwariant o (£11k) gan yr Uned Strategaeth Pobl Hŷn yn sgil cyflawni cynllun arbediad ymlaen llaw, a tanwariant (£9k) gan y Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid, oherwydd gostyngiad gwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB Y TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL**

**Adran:-** **Tîm Rheoli Corfforaethol**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant | **779** | | | | | |
| Incwm ac Ad-daliadau | **(779)** | | | | | |
| Cyfanswm Net | **0** | **7** | **7** | **0** | | **0** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Gwasanaethau Canolog | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adnoddau Dynol** | **173** | **121** | **114** | **(7)** | **0** | **(7)** |
| **Cyllid** | **1,153** | **1,147** | **1,124** | **(23)** | **0** | **(23)** |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | **613** | **625** | **663** | **38** | **0** | **38** |
| **Gofal Cwsmer** | **2,026** | **2,118** | **2,092** | **(26)** | **0** | **(26)** |
| **Strategol a Gwella** | **723** | **929** | **836** | **(93)** | **0** | **(93)** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol** | **0** | **7** | **7** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog** | **4,688** | **4,947** | **4,836** | **(111)** | **0** | **(111)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Cynlluniau Arbedion Trawsadrannol**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **364** | **(364)** | **0** |

Gan fod rhai targedau arbedion corfforaethol (yr Uned Gaffael Gogledd Cymru ac elfen o e-Gaffael) yn anhebygol o gael eu wireddu'n llawn yn 2013/14, bydd angen trefniadau pontio am eleni.

**Argymhellir** rhyddhau elfen o'r gyllideb 'Arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw' (fel a ddangosir isod) i'r pwrpas.

**Maes:-** **Rhyddhau o'r gyllideb Arbedion a wireddwyd ymlaen llaw**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **(364)** | **364** | **0** |

Rhyddhau o'r gyllideb perthnasol sy'n cynnwys casgliad o arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw o'r rhaglen angenrheidiol ar gyfer 2013/14. Gan fod y Cyfarwyddwr Strategol, fel rhan o'r gwaith strategaeth ariannol, yn ystyried goblygiadau y symudiad o drawsnewid o un cynllun arbedion i'r llall, awgrymir fod unrhyw weddill o'r pennawd arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma'n cael ei glustnodi ar gyfer gofynion perthnasol.

**Maes:-** **Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **186** | | **186** |

Rhagwelir gostyngiad o £186k mewn derbyniad llog net eleni, oherwydd sefyllfa gyffredinol y farchnad buddsoddi, lle mae lefel cyfraddau llog yn ddigynsail o isel.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Buddosddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Iâ")** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **(221)** | | **(221)** |

Derbyniwyd ad-daliad pellach o (£221k) uwchben ein rhagdybiaeth darbodus mewn perthynas â buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Iâ"), sy'n dod a'r ganran adennillwyd hyd yma i 94%.

| | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Treth y Cyngor (adroddir yma ar yr elfen ychwanegol yn unig)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **(520)** | | **(520)** |

Am y tro rhagwelir sefyllfa derbyniad incwm ychwanegol o (£520k), yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2013 i ariannu (yn rhannol) lefelau hanesyddol o gymorth (hyd at 100%) i unigolion dalu'r Dreth Cyngor. Daeth hyn ar ôl penderfyniad Cyngor Gwynedd i ostwng cyfradd casglu tybiannol perthnasol i 97.5% ar gyfer 2013/14. Mae'r hyblygrwydd tebygol o (£520k) ar ôl ariannu elfen y Cyngor o gost y cynllun gostyngiadau 2013/14, sy'n £427k. Oherwydd fod rhan sylweddol o'r flwyddyn ariannol ar ôl o hyd, ynghyd â'r darlun cyffredinol a welir hefo rhai cyllidebau adrannol a adroddir uchod, am y tro ni wneir argymhelliad pendant ar y defnydd posib o'r adnoddau hyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Rhyddhau o'r Cyllideb Wrth Gefn** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | **(568)** | **568** | **0** |

Yn dilyn o'r argymhelliad a welir uchod o dan Gwasanaethau Pobl Hŷn, yn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef rhyddhau'r ddarpariaeth cynnydd demograffeg i ddod o'r Gyllideb Wrth Gefn.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Crynhoad o'r Sefyllfa Gorfforaethol | Cyllideb Agoriadol 2013/14 | Cyllideb Arfaethedig 2013/14 | Sefyllfa a Ragwelir 2013/14 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynlluniau Arbedion Trawsadrannol** | **0** | **0** | **0** | **364** | **(364)** | **0** |
| **Rhyddhau o'r gyllideb Arbedion a wireddwyd ymlaen llaw** | **0** | **0** | **0** | **(364)** | **364** | **0** |
| **Derbyniad Llog Net** | **0** | **0** | **0** | **186** | **0** | **186** |
| **Buddosddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Iâ")** | **0** | **0** | **0** | **(221)** | **0** | **(221)** |
| **Treth y Cyngor (adroddir yma ar yr elfen ychwanegol yn unig)** | **0** | **0** | **0** | **(520)** | **0** | **(520)** |
| **Rhyddhau o'r Cyllideb Wrth Gefn** | **0** | **0** | **0** | **(568)** | **568** | **0** |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | **0** | **0** | **0** | **(1,123)** | **568** | **(555)** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2013/14 - ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (30 MEDI 2013)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a craffu penderfyniadau drafft y Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 26 Tachwedd ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 26 Tachwedd o'r Cabinet.

**4.** Erbyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 26 Tachwedd fel arsyllwyr, a bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" ar 3 Rhagfyr.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau drafft y Cabinet (cyflwynir "ar y bwrdd" ar 3 Rhagfyr), a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
26 TACHWEDD 2013

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – 2015/16

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2013) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i'r Cabinet ffurfiol 26 Tachwedd 2013 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £121m am y 3 blynedd 2013/14 – 2015/16.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £12.732m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.9 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2013/14 i 2014/15.

**Rhan 4**: Gwariant 6 mis cyntaf 2013/14.

**Prif Gasgliadau:**

Gofynnir am gymeradwyaeth i gynnydd o £12.7m yn y rhaglen tair blynedd, ail-broffilio gwariant o £3.3m o 2013/14 i 2014/15.

Fe welir fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni wedi codi i dros £49m, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol wedi codi i dros £121m, sy'n gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Bu cynnydd o 3% yn y lefel gwariant ar ddiwedd Medi eleni (2013/14) o'i gymharu â'r un cyfnod (6 mis) y llynedd. Mae hyn yn welliant am yr ail flwyddyn yn olynol.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2013/14 - 2015/16.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar adolygiad 3ydd chwarter i gyfarfod 18 Chwefror 2014 y Cabinet.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Fel yr wyf wedi awgrymu o'r blaen pan yn trafod yr eitemau hyn, mae rheolaeth fyw o'r rhaglen gyfalaf yn allweddol nid yn unig ar gyfer rheolaeth gyllidol y Cyngor ond hefyd i sicrhau ein bod fel Cyngor yn gwireddu'r hyn yr ydym wedi ei addo i drigolion wrth lunio'r Gyllideb Gyfalaf am y flwyddyn. Yn y cyd-destun hynny, mae'n galonogol bod lefel cymharol y gwariant yn erbyn y gyllideb yn well na'r flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae rheolaeth fyw yn allweddol er mwyn ymateb i newidiadau o'n cwmpas o ran ffynonellau ariannu ac amgylchiadau prosiectau unigol. Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2013/14 i 2015/16

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Medi yn erbyn y sefyllfa diwedd Mehefin:

### CYMHARIAETH RHWNG Y CHWARTER CYNTAF A'R AIL CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y CHWARTER DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | |
| **ADRAN** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau Dynol | 55 | 449 | 0 | 504 | 45 | 459 | 0 | 504 | 0 |
| Addysg | 8,169 | 6,805 | 16,163 | 31,137 | 9,570 | 7,030 | 23,937 | 40,537 | 9,400 |
| Cyllid | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 307 | 301 | 0 | 608 | 229 | 379 | 0 | 608 | 0 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 7,725 | 2,733 | 100 | 10,558 | 5,796 | 6,622 | 100 | 12,518 | 1,960 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 9,657 | 4,802 | 3,097 | 17,556 | 8,957 | 5,442 | 3,097 | 17,496 | (60) |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 735 | 1,618 | 945 | 3,298 | 747 | 1,380 | 797 | 2,924 | (374) |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,015 | 2,000 | 2,000 | 7,015 | 3,095 | 2,027 | 2,000 | 7,122 | 107 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,920 | 6,982 | 2,603 | 17,505 | 8,989 | 6,753 | 2,603 | 18,345 | 840 |
| Rheoleiddio | 10,835 | 8,434 | 161 | 19,430 | 11,676 | 8,474 | 161 | 20,311 | 881 |
| Strategol a Gwella | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tai Cyngor (Gweddillol) | 32 | 0 | 0 | 32 | 32 | 0 | 0 | 32 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 51 | 16 | 18 | 85 | 29 | 16 | 18 | 63 | (22) |
| Corfforaethol | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 |
| **CYFANSWM** | **48,501** | **34,475** | **25,469** | **108,445** | **49,165** | **38,917** | **33,095** | **121,177** | **12,732** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £12.732m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| FFYNHONNELL ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | CYNNYDD/ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 £000 | 2014/15 £000 | 2015/16 £000 | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £000 | (LLEIHAD) £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 4,209 | 6,690 | 7,452 | 6,051 | 5,355 | 11,547 | 4,602 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 25,681 | 15,295 | 7,424 | 23,124 | 20,698 | 11,103 | 6,525 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,573 | 1,096 | 1,680 | 1,526 | 1,291 | 1,680 | 148 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,531 | 721 | 3,160 | 4,704 | 722 | 3,160 | 174 |
| Cronfa Cyfalaf | 4,921 | 4,588 | 200 | 4,943 | 4,411 | 52 | (303) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 3,420 | 1,919 | 1,387 | 4,651 | 2,274 | 1,387 | 1,586 |
| **CYFANSWM** | **48,501** | **34,475** | **25,469** | **49,165** | **38,917** | **33,095** | **12,732** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **108,445** | | | **121,177** | |

**2.2** **Cynlluniau Ysgolion - 'Tranche 3' a 'Chanrif 21' (Adran Addysg)**
Ail broffiliwyd yr ariannu ar gyfer rhai o'r cynlluniau canlynol sef –

**'Tranche 3' – cronfa cyllido cyfalaf trosiannol y Llywodraeth**

- Ysgolion ardal Bro Dysynni (gan gynnwys Ysgol Craig y Deryn, Ysgol Penybryn, Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal)

**'Ganrif 21' – rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain**

- Ysgol O.M.Edwards, Llanuwchllyn ac Ysgolion ardal Bala
- Ysgolion ardal Dolgellau
- Ysgol newydd Groeslon
- Ysgol newydd Hafod Lon
- Ysgol newydd Glan Cegin

Mae'r ail-broffilio wedi cael effaith ar amseriad y buddsoddiad angenrheidiol gan y Cyngor, a ariennir yn bennaf drwy fenthyciad heb gefnogaeth, a hefyd ar amseriad y grant gan y Llywodraeth. Noder mai effaith 3 mlynedd yn unig a welir yma, sef oes y rhaglen gyfalaf cyfredol, ond bydd y cynlluniau yn parhau i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r addasiadau i'r sefyllfa ariannu gyfredol:

| FFYNHONNELL ARIANNU | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Benthyca heb gefnogaeth** | **2,193** | **(504)** | **3,228** | **4,917** |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | **(2,814)** | **2,050** | **3,679** | **2,915** |
| **Cronfa Cyfalaf** | **680** | **(680)** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **59** | **866** | **6,907** | **7,832** |

Mae'r gwariant a'r ariannu ar gyfer ysgolion ardal Bro Dysynni eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Llywodraeth, ac felly nid oes risg ariannol i'r cynlluniau yma. Ar wahân i hwnnw mae gweddill y cynlluniau yn amodol ar gymeradwyaeth o'u hachosion busnes manwl, ac felly yn parhau gydag elfen o risg ariannol. Fodd

bynnag, gan fod y Llywodraeth yn awyddus i'r Cyngor gydnabod ein hymrwymiad ariannol i'r cynlluniau, rydym wedi cynnwys ariannu'r cynlluniau yn eu cyfanrwydd yn y rhaglen gyfalaf sy'n rhan 1 uchod. Pe byddai'r cynlluniau busnes yma yn methu am ryw reswm, byddai angen tynnu'r ariannu cyfatebol allan o'r rhaglen.

**2.3 Benthyca Heb Gefnogaeth**

Yn ychwanegol i'r addasiad a nodwyd yn 2.2 uchod mae yna leihad o (£315,000) yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) – (£253,000) yn 2013/14**, sydd yn adlewyrchu ail broffilio cynlluniau rheoli carbon cyfredol sydd yn cael eu hariannu drwy fenthyciad Salix.

**2.4 Grantiau a Chyfraniadau**

Yn ychwanegol i'r addasiad a nodwyd yn 2.2 uchod mae yna gynnydd net o £3,610,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) - £400,000 yn 2013/14, a £1,481,065 yn 2014/15**
  Derbyniwyd grantiau gan Fenter Môn Menai £400,000, Cronfa Dreftadaeth y Loteri £1,400,000 a Phrifysgol Bangor £81,065 at gynllun i greu amgueddfa newydd ac oriel gelf ym Mlas yr Esgob, Bangor.
- **Cynllun Dysgu yn y Gymru Ddigidol (Adran Addysg) - £1,290,000 yn 2013/14**
  Ariennir y cynllun yma drwy grant penodol gan y Llywodraeth ar gyfer gwella cysylltedd digidol ar draws ysgolion Cymru.
- **Cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned – Edern i Morfa Nefyn (Adran Rheoleiddio) - £205,000 yn 2013/14**
  Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwelliannau i'r llwybr aml-ddefnyddiwr uchod.
- **Biniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £116,570 yn 2013/14**
  Derbyniwyd Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pryniant o finiau gwastraff.

**2.5 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £148,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd cyfraniad o £100,000 yn 2014/15 gan yr Adran Economi a Chymuned at gynllun Amgueddfa Oriel Gwynedd (gweler hefyd 2.4 uchod a 2.6 isod).

**2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Cynnydd net o £174,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd cyfraniad o £78,570 yn 2013/14 gan yr Adran Rheoleiddio at gynllun Penamser Porthmadog. Mae'r cyfraniad yma ar gyfer ariannu gorwariant dros dro ar y cynllun i greu cylchfan newydd ar lôn Criccieth allan o Borthmadog, ond gobeithir denu grant i'w amnewid cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**2.7 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad o £302,600 yn y dull yma o ariannu, oherwydd trosglwyddiad o ariannu cyfalaf i ariannu costau swyddi refeniw dros dair blynedd sydd yn berthnasol i gynllun technoleg gwybodaeth 'EDRMS' *('Electronic Document and Records Management System'*) yr Adran Gofal Cwsmer. Mae hon yn system gorfforaethol i reoli a phrosesu dogfennau.

**2.8 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £1,436,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun gwaith dwr yn Sandilands, Tywyn (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £506,310 yn 2013/14**
  Defnydd o Gronfa Carthffosiaeth a sefydlwyd i'r perwyl yn 2010.
- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) £498,570 yn 2013/14 a 2014/15**
  Defnydd o Gronfa sydd yn gysylltiedig â Rheoli Carbon.
- **Cynlluniau Pontydd a Waliau Cynnal (Adran Rheoleiddio) £234,000 yn 2013/14**
  Defnydd o Gronfa Tywydd Garw a sefydlwyd gan y Cabinet wrth gau cyfrifon 2012/13.
- **Cynllun addasiadau Caergylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £236,530 yn 2013/14**
  Defnydd o Gronfa Adnewyddu berthnasol.
- **Cynllun Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) - £150,000 yn 2014/15** (gweler hefyd 2.4 a 2.5 uchod)
  Defnydd o gronfa cydariannu cynlluniau'r Cyngor.

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 i 2015/16 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2013/14 i 2014/15 hyd yma yw £3,322,070. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Ysgol Brynrefail – dileu 6 dosbarth symudol (Adran Addysg) £450,000
- Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) £222,000
- Cynlluniau Asbestos a Tân (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) £200,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £1,817,800

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu colled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 6 MIS CYNTAF 2013/14

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd yr ail chwarter (6 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 (blwyddyn gyfan) -

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Medi) 2013/14 £'000 | GWIR WARIANT Y 6 MIS HYD AT 30/09/2013 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 45 | 11 |
| Addysg | 9,570 | 4,090 |
| Cyllid | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 229 | 35 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,796 | 987 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,957 | 5,232 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 747 | 126 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,095 | 1,531 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,989 | 2,848 |
| Rheoleiddio | 11,676 | 2,503 |
| Strategol a Gwella | 0 | 0 |
| Tai Cyngor | 32 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 29 | 0 |
| Corfforaethol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **49,165** | **17,363** |

Mae rhai adrannau yn ymddangos i fod yn gwario llai na hanner y gyllideb flynyddol hyd yma, sef Adran Economi a Chymuned (yn bennaf oherwydd oedi gyda'r cynllun Academi Hwylio ym Mhwllheli), Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn bennaf oherwydd proffil gwariant cynllun GwyriAD) a'r Adran Rheoleiddio (yn bennaf oherwydd proffil gwariant Pont Briwet). Er hynny mae'r adrannau yn hyderus y byddent yn gwario yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd yr ail hanner o'r flwyddyn.

**4.2** Mae bron i £17.4m wedi ei wario yn ystod y chwe mis cyntaf, sef 35% o'r gyllideb.

| **CRYNODEB** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2013/14** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2012/13** | **CYNNYDD** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £49.2miliwn | £42.2miliwn | £7.0miliwn |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £17.4miliwn | £13.4miliwn | £4.0miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 35% | 32% | 3% |

**4.3** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn uwch na'r gyfran gyfatebol llynedd. Mae hyn yn welliant am yr ail flwyddyn yn olynol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2013, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

---

## 1. CEFNDIR

Mae mabwysiadu Côd Ymarfer Rheolaeth Trysorlys 2011 CIPFA wedi gosod y sylfaen i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2013/14, sy'n cynnwys yr angen i benderfynu ar strategaeth ariannol ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae'r Côd hefyd yn argymell y dylid hysbysu aelodau ynghylch gweithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn felly'n sicrhau bod yr awdurdod hwn yn arddel Arfer Gorau yn unol ag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA.

Diffinnir Rheolaeth Trysorlys fel: "*The management of the local authority's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks."*

Yn ogystal ag adrodd ar reoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau trysorlys, mae'r Côd Rheolaeth Trysorlys hefyd yn gofyn i'r Cyngor adrodd ar unrhyw offerynau ariannol a ymrwymir iddynt i reoli risgiau trysorlys.

## 2. CEFNDIR ECONOMAIDD

**Twf:** Dangosodd economi'r DU beth gwelliant, gyda gwariant cwsmeriaid yn hybu twf. Adolygwyd GDP yn chwarter cyntaf 2013 a'i gynyddu i +0.4% ac roedd yn +0.7% ar gyfer yr ail chwarter. Dengys data diweddar raddfa gryfach yn chwarter tri. Dangosodd adolygiadau o ôl-ddata GDP gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol bod y DU wedi osgoi dirwasgiad dwbl yn 2012, ond bod y dirywiad yn 2008-09 yn ddyfnach na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Erys twf dros 3% ar hyn o bryd, sy'n is na'r pwynt uchaf a welwyd yn 2007.

Daeth rhai arwyddion positif o ran gwariant aelwydydd i'r amlwg. Arafu wnaeth y dirywiad yn nhwf gwir enillion (h.y. enillion llai chwyddiant), ac awgrymodd hyn bod grym pryniant yn dirywio ar raddfa arafach. Gwella wnaeth hyder cwsmeriaid. Parhau'n uchel fu hanes graddfeydd cynilo aelwydydd, ac nid yw hyn yn syndod o ystyried y rhagolygon economaidd ansicr, ond bellach mae hyn yn ymddangos i arafu, gan awgrymu bod gwariant yn cael ei yrru gan fenthyciadau neu bod pobl yn cynilo llai o arian. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch cynaladwyedd adfer ar y graddfeydd twf hyn.

**Chwyddiant:** Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) blynyddol (a gyhoeddwyd ym mis Medi) yn 2.7%. Cwympodd chwyddiant yn unol â'r disgwyliadau a disgwylir iddo barhau'n agos i'r lefel hwn drwy gydol yr hydref. Yn ddiweddarach, dylai chwyddiant gwympo'n ôl tuag at y targed o 2% wrth i bwysau prisiau allanol ostwng ac adfywiad mewn twf cynhyrchedd reoli pwysau costau domestig. Dringodd pris olew (Crai Brent) uwchben $100/y gasgen yn sgil y cynni gwleidyddol yn Yr Aifft a'r argyfwng sy'n parhau yn Syria.

**Polisi Ariannol:** Ni welwyd newid ym mholisi ariannol y DU gyda graddfeydd llog swyddogol yn parhau yn 0.5% a phryniant asedau yn parhau yn £375bn. Y prif ddatblygiad ar gyfer polisi ariannol y DU oedd cychwyn cyfnod daliadaeth Mark Carney fel Llywodraethwr a gweithrediad blaen ganllawiau. Yng nghorff Adroddiad Chwyddiant mis Awst, cyflwynodd y Banc ei flaen ganllawiau, a phrif elfen y canllawiau hynny yw gohirio tynhau ariannol hyd nes i Raddfa Diweithdra'r ILO gwympo i drothwy o 7% (ymysg cyfres o gafeatau). Rhagdybiodd y Banc y buasai'r tebygolrwydd bod hyn yn digwydd yn parhau dan 50% hyd 2016. Bu'n rhaid i'r Llywodraethwr amddiffyn canllawiau'r Banc yn sgil disgwyliadau cynyddol y farchnad i weld cynydd yn y raddfa yn dilyn y data economaidd calonogol.

Yn ei dystiolaeth i'r Cyngres ar 22 Mai, nododd Ben Bernanke, Cadeirydd yr US Federal Reserve pe bai'r adferiad yn economi'r UD yn sefydlogi, y buasai'r Fed yn gostwng ei raglen pryniant asedau (QE) $85bn misol. Arweiniodd y ffaith bod y Fed yn ymddangos i symud tuag at ostwng ei raglen QE agored at brisiau ased hynod gyfnewidiol mewn bondiau ac ecwiti, wrth i fuddsoddwyr geisio crisialu'r enillion a yrrwyd gan hylifedd uwch. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd nodedig yn enillion bondiau'r llywodraeth. Roedd disgwyliad cynyddol y buasai'r Federal Reserve yn ceisio cychwyn y gostyngiad hwn ym mis Medi, ond fe synnodd y farchnad a chadw'r pryniant asedau ar y lefel gyfredol.

**Byd-eang:** Er bod y rhagolygon ar gyfer yr economi byd-eang yn ymddangos i fod wedi gwella dros hanner cyntaf calendr 2013/14, erys risgiau economaidd sylweddol, yn enwedig yn China a pharth yr Ewro. Mae system bancio China yn wynebu amgylchiadau hylifedd tynach wrth i swyddogion geisio arafu'r twf credyd cyflym, ac, er

gwaetha'r amser a enillwyd gan yr ECB i ganiatáu i aelodau unigol a pharth yr Ewro yn ei gyfanrwydd ddiwygio eu heconomïau, nid yw argyfwng dyledion parth yr Ewro wedi diflannu. Mae'n ymddangos bod y rhanbarth yn llusgo ei hun allan o'r dirwasgiad ac fe aeth etholiad cyffredinol Yr Almaen heibio heb fawr o gynnwrf ym mis Medi, ond gallai ansicrwydd gwleidyddol, yn enwedig yn Yr Eidal, ddireilio unrhyw gynnydd tuag at economi rhanbarthol mwy cytbwys a sefydlog. Ymddangosodd bod adferiad yr UD yn mynd ar y trywydd iawn, ond arweiniodd diffyg cytundeb ar y gyllideb ffederal erbyn diwedd mis Medi at gau y llywodraeth i lawr yn rhannol ddechrau mis Hydref, a gallai hyn effeithio ar dwf GDP. Erys risgiau gwleidyddol ynghylch y terfyn dyledion hefyd.

## 3. RHEOLI DYLEDION

**<u>Gweithgareddau Benthyca 2013/14</u>**

| | **Balans ar 01/04/2013 £m** | **Dyled yn aedd-feddu £m** | **Trosglwy-ddiad £m** | **Benthyca newydd £m** | **Balans ar 30/09/2013 £m** | **Cyfradd Cyfartal % a Bywyd Cyfartal (bl)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca Tymor Byr[1] | 17,437 | (1,043) | (15,142) | 33 | 1,285 | 9.07%<br>0.88 bl |
| Benthyca Tymor Hir | 95,811 | 0 | 15,142 | 164 | 111,117 | 5.75%<br>21.71 bl |
| **CYFANSWM BENTHYCA** | **113,248** | **(986)** | **0** | **197** | **112,402** | 5.78%<br>21.47 bl |
| Ymrwymiadau Eraill Tymor Hir | 29 | 0 | 0 | 0 | 29 | 4.35%<br>1.25 bl |
| **CYFANSWM DYLED ALLANOL** | **113,277** | | 0 | 197 | **112,431** | 5.78%<br>21.47 bl |
| Cynnydd/ (Gostwng) mewn Benthyca £m | | | | | (846) | |

### Diweddariad ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)

Mae'r Cyngor yn gymwys i fenthyca ar y 'Raddfa Sicrwydd' (0.20% islaw cyfradd safonol PWLB), am gyfnod o 12 mis o 01/11/2012. Ym mis Awst, cyflwynodd y Cyngor ei gais i Lywodraeth Cymru ynghyd ag Amcangyfrifon Cyfalaf 2013/14 er mwyn iddo gael mynediad at y raddfa ostyngedig hon am 12 mis arall, o 1 Tachwedd 2013.

[1] Benthyciada gyda aeddfeddrywd llai na flwyddyn.

**Benthyciadau PWLB**
Pery'r PWLB yn adnodd benthyca deniadol i'r Cyngor gan ei fod yn cynnig hyblygrwydd a rheolaeth. Wrth i bryderon gynyddu ynghylch amseru gwaredu neu leihau'r QE gan yr US Federal Reserve, gwerthwyd giltiau a chododd enillion ym mis Mai a mis Mehefin. Arweiniodd y cynnydd cyflym mewn enillion giltiau at gynnydd cyfatebol mewn cyfraddau PWLB (gweler Atodiad A). Gwelwyd y cynnydd amlycaf mewn benthyciadau 10 mlynedd ble yr oedd cyfraddau fel ar 30 Medi 0.83% yn uwch nac ar 1 Ebrill. Erys fforddiadwyedd a'r "*gost cario"* yn ddylanwadau pwysig ar strategaeth fenthyca'r Cyngor yn ogystal â'r ystyriaeth, o ran unrhyw fenthyca a wnaed cyn bod angen yr arian, y byddai'n rhaid buddsoddi'r swm yn y marchnadoedd arian ar raddfa llog gymharol is na chost y benthyciad.

Felly i'r Cyngor mae'r defnydd o adnoddau mewnol yn lle benthyca wedi parhau i fod y modd mwyaf effeithiol o ariannu £10m o wariant cyfalaf yn 2013/14. Mae hyn wedi gostwng y risg cyffredinol i'r trysorlys drwy leihau dyledion allanol a buddsoddiadau dros dro. Bydd y dewisiadau benthyca ac amseriad benthyciadau o'r fath yn parhau i gael eu hasesu ar y cyd ag ymgynghorydd trysorlys y Cyngor.

**Aildrefnu Dyledion:**
Bu i'r gostyngiad yn y cyfraddau ad-dalu PWLB yn ystod y chwarter leihau'r premiwm fyddai'n berthnasol i adbrynu benthyciadau'n gynnar, ond parhau'n gymharol ddrud wnaeth y premiwm ar gyfer y benthyciadau ym mhortffolio'r Cyngor ac felly nid oeddynt yn ddeniadol ar gyfer gweithgarwch aildrefnu dyledion. O ganlyniad, ni wnaethpwyd unrhyw weithgarwch aildrefnu. Ni fu unrhyw weithgareddau aildrefnu dyledion yn ystod y cyfnod hwn.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y chwarter wedi arwain at ostyngiad yn y risg credyd o ad-dalu dyledion gyda buddsoddiadau presennol.

## 4. GWEITHGARWCH BUDDSODDI

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

**<u>Gweithgareddau Buddsoddi yn 2013/14</u>**

| **Buddsoddiadau** | **Balans ar 01/04/2013 £'000** | **Buddsoddiadau a wnaed £'000** | **Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000** | **Balans ar 30/09/13 £'000** | **Cyfradd cyf % a chyfnod cyf (diwrnod)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Byrdymor | 43,030 | 110,188 | (109,528) | 43,690 | 0.78% 87 diwrnod |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi eu cyfuno | 0 | 88,000 | (76,000) | 12,000 | -------- |
| Buddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol Eraill | 5,000 | 0 | (5,000) | 0 | |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **48,030** | **198,188** | **(190,528)** | **55,690** | 0 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | 7,660 | -------- |

Mae diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Cyngor sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2013/14. Gellir buddsoddi o'r newydd gyda'r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau Lleol Eraill;
- Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA;
- Cyfrifon ar Alw, Tystysgrifau Ernesau (CD's) ac Ernesau Term gyda Banciau penodol y DU a nad ydynt yn y DU a Chymdeithasau Adeiladu. Mae'r banciau tramor yn cynnwys rhai sydd wedi eu cartrefu yn Awstralia, Canada, America, Ewrop a Singapore.
- Biliau Trysorlys a DMADF (Debt Management Office);
- Giltiau
- Bondiau wedi'u cyflwyno gan Fanciau Datblygu Amlochrog, megis yr European Investment Bank a'r World Bank.
- Cronfeydd wedi'u cyfuno (cynlluniau buddsoddi ar y cyd).
- Buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol (cymdeithasau tai).

Caiff ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at: Statws Credyd (lleiafswm y Cyngor yw statws o A+ (neu gyfwerth) ar gyfer gwrthbartïon hirdymor ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S and P a Moody's); amnewid diffyg credyd (credit default swaps); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP; mecanweithiau i gefnogi'r sofren / cefnogaeth posib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol; ynghyd â phris y cyfranddaliadau.

## Risg Credyd

Mae ansawdd credyd y gwrthbartïon fel y mesur trwy ddadansoddiad sgôr credyd yn cael ei grynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/2013** | 5.27 | A+ | 5.08 | A+ |
| **30/06/2013** | 5.18 | A+ | 5.30 | A+ |
| **30/09/2013** | 5.44 | A+ | 4.60 | A+ |

*<u>Sgorio:</u>*
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

## Diweddariad Gwrthbartïon

Ym mis Ebrill cafodd cyfraddiad sofran y DU ei israddio un hicyn o AAA i AA+ gan Fitch, yr ail asiantaeth cyfraddiad i'w wneud (cafodd cyfraddiad y DU ei israddio i Aa1 ym mis Chwefror gan Moody's). Fel yn berthnasol mae cyfraddiadau awdurdodau lleol, sydd yn elwa o uwchraddiad oherwydd eu cysylltiadau agos ac uniongyrchol gyda'r llywodraeth canolog, wedi cael eu israddio hefyd.

Mae'r gwerthiant arfaethedig 632 cangen Lloyds i'r Co-op Bank – a enwir 'Project Verde' – wedi methu ym mis Ebrill. Bydd y canghennau perthnasol yn cael eu trosglwyddo ym mis Medi i TSB Bank, banc newydd a werthir trwy cofrestriad ar y farchnad stoc yn 2014.

Ym mis Mai roedd Moody's yn israddio cyfraddiad tymor hir Co-op Bank chwe hicyn o A3 i Ba3 sydd yn is na'r raddfa buddsoddi. Roedd yr israddiad yn adlewyrchu barn yr asiantaeth bod y banc yn wynebu risg o golledion sylweddol yn ei bortffolio nad yw'n graidd i'r busnes. Ym mis Mehefin datganodd y Co-op bod ganddo ddiffyg cyfalaf rheoleiddio o £1.5bn sydd yn golygu bod angen ail-gyfalafiad trwy rannu'r baich gyda chredydwyr iau a gwaredu asedau o'r busnesau yswiriant ei rhiant. Cafodd cyfraddiad tymor hir y banc ei israddio pedwar hicyn bellach i Caa1 gan Moody's tra oedd Fitch yn israddio'r tymor hir o BBB- i BB-.

Mewn araith Mansion House y Canghellor ar 19eg Mehefin datganodd ei bwriad i werthu cyfran y llywodraeth mewn Lloyds Banking Group eitha fuan a chafodd 6% ei gwerthu i fuddsoddwyr sefydliadol ar 17eg Medi gyda phris o 75c. Mewn symudiad positif, uwchraddiwyd cyfraddiad hyfywdra Lloyds i bbb+ gan Fitch. Roedd sefyllfa RBS mwy cymhleth gan oedd ei broblemau yn fwy ac yn dangos ym mhris ei chyfranddaliadau. Ymddangosodd y bydd ymraniad y 'banc da' a'r 'banc drwg' i RBS yn cael ei ffafrio gan y Canghellor a hyn yw un o'r rhesymau tu ôl i'r datganiad bod Prif Weithredwr RBS, Stephen Hester, yn gadael, gan oedd o'n anghytuno gyda'r llwybr hwn.

Rhoddodd Moody's tymor hir A3 a chyfraddiad nerth ariannol annibynnol D+ RBS ar adolygiad i israddio ar 5ed Gorffennaf 2013, ymysg pryderon ynglŷn ag effaith unrhyw raniad y banc ar gredydwyr. Er bod y tebygrwydd colledion dal yn isel mae posibilrwydd o amhariad cyfalaf yn enwedig gan fod y llywodraeth wedi datgan yn glir na fydd yn cyfrannu unrhyw arian treth bellach. Fel mesur rhagofalus mae'r Cyngor wedi lleihau cyfnod hirach ar fuddsoddiadau RBS i dros nos.

Seiliwyd gweithgareddau buddsoddi dros y cyfnod yn bennaf ar adneuon dros nos a chronfeydd marchnad arian gan nad yw'r dychweliadau ar fuddsoddiadau tymor hirach yn uwch na dros nos ac mae'r risg yn uwch.

Atodir rhestr o wrthbartïon y Cyngor fel ag yr oedd ar 30 Medi 2013 er gwybodaeth yn Atodiad A.

**Trefniadau Cystodaeth Ddiogel**

Sefydlodd y Cyngor gyfrif cystodaeth gyda King and Shaxson ym mis Awst 2012. Yn dilyn agor y cyfrif cystodaeth, mae gan y Cyngor bellach y gallu i ddefnyddio nifer o offerynnau buddsoddi cymeradwy fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Trysorlys 2013/14 ac i amrywio'r portffolio buddsoddi. Mae offerynnau buddsoddi sydd angen cyfleuster cystodaeth yn cynnwys Biliau'r Trysorlys, Tystysgrifau Adneuo, Giltiau, Bondiau Corfforaethol a Bondiau Cydwladol.

Wrth sefydlu trefniadau cystodaeth, bydd Cyngor mewn gwell safle i ystyried defnyddio offerynnau buddsoddi eraill mewn ymateb i amodau credyd newidiol.

Buddsoddodd y Cyngor mewn Tystysgrif Adneuo gyda Standard Chartered Bank ym mis Awst 2012 a aeddfedwyd ym mis Awst 2013. Cymerwyd Tystysgrif Adneuo newydd ym mis Awst 2013.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**

Amcangyfrifir mai incwm buddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi'i gyllidebu ar gyfer y flwyddyn yw £0.556m. Roedd y balansau arian cyfartalog sy’n cynrychioli cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ei falansau gweithio ac arian gwarged y Gronfa Bensiwn yn £65.4m yn ystod y cyfnod.

Mae cyfradd sylfaenol y DU wedi parhau ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Nid oes disgwyl iddo gynyddu hyd nes 2016/17. Mae cyfraddau arian marchnad tymor byr wedi parhau ar lefelau isel iawn. Gwnaed adneuon newydd ar raddfa gyfartalog o 0.65%. Roedd ernesau mewn Cronfeydd Marchnad Arian CNAV ar gyfradd cyfartaledd o 0.4%.Mae’r Cyngor yn rhagweld alldro buddsoddiad o £350,000 ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**

***Heritable*** - Erbyn hyn mae’r Cyngor wedi adennill 94% o’i buddsoddiad mewn Heritable Bank. Mae’n debyg y derbynnir dosbarthiadau pellach, er nad yw’r gweinyddwyr wedi gwneud unrhyw amcangyfrif o’r adenillion terfynol eto.

Dyrannwyd CIPFA arweiniad pellach ar driniaeth cyfrifo ar gyfer y trafodion yma ym mis Medi 2013 pan gyhoeddwyd LAAP 82 (diweddariad 8).

## 5. CYDYMFFURFIO Â DANGOSYDDION DARBODUS

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â’i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2013/14, a osodwyd ym mis Chwefror 2013 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - gellir cael mynediad ato drwy’r linc hwn:**http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2012-13/Cyngor%20Llawn/2013-02-28/english/08_06_(b)%20Treasury%20Management.pdf**
Ceir manylion y Dangosyddion Darbodus rheolaeth trysorlys yn Atodiad B.

## 6. RHAGOLYGON CHWARTER 3

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad gweithgarwch hwn ym mis Hydref 2013, ymddengys bod rhagolygon economaidd y DU wedi gwella. Mae’r llwybr twf a ragwelir wedi codi, ond erys yn gymharol isel, gyda dibyniaeth amlwg ar dreuliant aelwydydd, sydd dan bwysau ei hun o ystyried y dirywiad yn nhwf gwir enillion, diweithdra uchel a hyder isel cyffredinol. Bydd amrywiaeth o ffactorau eraill yn parhau i bwyso ar adferiad domestig, yn cynnwys cyfnerthu ariannol parhaus, hyder busnes isel a llai o alw o wledydd tramor. Er y gall yr adferiad economaidd fagu momentwm, awgryma blaen ganllawiau Banc Lloegr ei bod yn annhebygol y bydd polisi ariannol yn cael ei dynhau hyd nes y bydd Cyfradd Diweithdra’r ILO yn syrthio islaw 7%. Rhagwelodd y Banc y buasai’r lefel hon yn cael ei chyflawni yn 2016. Gweler isod y rhagolwg diweddaraf o ran Gyfradd y Banc gan ein hymgynghorwyr, Arlingclose:

| | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| **Arlingclose Central** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** |
| Downside risk | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |

## 7. CRYNODEB

Mewn cydymffurfiaeth â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae’r adroddiad hwn yn rhoi adroddiad crynodol o’r gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2013/14 i aelodau. Fel y dangosir yn yr adroddiad, ni thorrwyd unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus, a mabwysiadwyd dull darbodus mewn perthynas â gweithgarwch buddsoddi, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd yn hytrach nag enillion.

**Atodiad A**

**RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD (diweddarwyd 30/09/13)**

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £30m (£30m) | 2 flynedd |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Uchafswm 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Uchafswm 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Close Brothers** | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Clydesdale (National Australia Bank Group) **GWAHARDDWYD 28/09/11**** | ~~£12m (18m)~~ | ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Nationwide Building Society | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Nat West (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Royal Bank of Scotland (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Montreal | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Royal Bank of Canada | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Pohjola | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Ffrainc | BNP Paribas | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Ffrainc | Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Ffrainc | Credit Agricole SA | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Ffrainc | Societe Generale | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | DBS Bank Ltd | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC) | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | United Overseas Bank (UOB) | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Swistir | Credit Suisse | £12m (£18m) | **Uchafswm 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| UDA | JP Morgan | £12m (£18m) | **Uchafswm flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |

1. Mae terfyn o £18m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
2. Mae'r cyfyngiadau amser yn y rhestr uchod yn perthyn i adneuon cyfnod penodol. Mae offerynnau cyfnewidiadwy / masnachiadwy fel CD's gyda therfyn o 5 mlynedd. Mae'r cyfyngiadau amser argymhellir yn gyfredol yn sylweddol is na hyn, ond mae'r cyfyngiadau a amlinellir uchod yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i'r posibilrwydd o sefydlogiad neu welliant mewn amgylchiadau credyd ac economaidd yn 2013/14.
3. Gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd. Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gellir cwtogi'r rhestr hon.

## BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG

| Offeryn | Uchafswm Aeddfedrwydd | Uch £m o'r portffolio | Gwariant cyfalaf? | *Esiamplau* |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon tymor penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol | 2 flynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| Adneuon tymor gydag awdurdodau lleol | 2 flynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| CD's ac offerynnau cyfnewidiadwy gyda banciau, cymdeithasau adeiladu sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol* | 5 mlynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| Buddsoddiadau gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau eraill sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf penodol* (yn amodol ar asesiad credyd allanol) (gydag awdurdod y swyddog a151) | 3 mis | £5m fesul gwrthbarti | Na | *Banc yn disgyn o dan y meini prawf penodol e.e. Co-op*<br><br>*Mentrau bach a chanolig (SME's)* |
| | 1 flwyddyn | £1m fesul gwrthbarti | Na | |
| | 5 mlynedd | £100k fesul gwrthbarti | Ie / Na | |
| | | Yn amodol ar gyfanswm o £20m i gyd | | |
| Adneuon gyda darparwyr cofrestredig | 5 mlynedd | £5m | Na | *Housing Associations, Registered Social Landlords* |
| Giltiau | 6 mlynedd | Dim cyfyngiad | Na | *DMO* |
| Bondiau a gyflwynir gan fanciau datblygu amlochrog | 6 mlynedd | £12m | Na | *EIB Bonds, Council of Europe Bonds etc.* |
| Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofren y tu allan i'r DU | 6 mlynedd | £12m | Na | |
| Cronfeydd Arian Marchnad a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Hylifedd dyddiol | £8m fesul enw<br><br>Cyfanswm o £37.5m | Ie | *Ignis Sterling Liquidity Fund, Federated Prime Rate Sterling Liquidity Fund, RBS Global Treasury Funds etc.*<br><br>*Investec Target Return Fund; Elite Charteris Premium Income Fund; LAMIT; M&G Global Dividend Fund* |
| Offerynnau corfforaethol a dyled a gyflwynir gan gyrff corfforaethol a phrynwyd o 01/04/12 ymlaen. | 2 flynedd | £5m | Na | |
| Cynlluniau Buddsoddi Cyfunol (cronfeydd wedi eu cronni) nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o gynlluniau buddsoddi cyfunol yn WSI 2004 No 1010 (W.107) neu WSI 2007 No 1051 (W.108) | Nad yw'r cronfeydd yma gyda dyddiad aeddfedrwydd | £5m | Ie / Na | *Way Charteris Gold Portfolio Fund; Lime Fund* |
| Adneuon gyda chyrff eraill mewn perthynas i gynlluniau adnau morgeisi (gydag awdurdod y swyddog a151 mewn ymgynghoriad gyda'r ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor) | 7 mlynedd | £1m | Na | *LAMS* |
| Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol** | 10 mlynedd | £3m | Ie / Na | |

* Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

** Rhoddir cymeradwyaeth i'r benthyciadau hyn yn unol â'r broses y manylir yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

Ceir uchafswm o 75% o bortffolio buddsoddi'r Cyngor mewn buddsoddiadau amhenodedig.

**Benthyca o'i Gymharu â'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2013/14 hyd at 2015/16 yn y tabl isod:

| | 31/03/2013 Gwir £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2015 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2016 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC) Gros | 165,924 | 169,003 | 171,984 | 181,318 |
| Llai: Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | (29) | (15) | 0 | 0 |
| **GCC Benthyca** | **165,895** | **168,988** | **171,984** | **181,318** |
| Llai: Proffil Benthyca Presennol | (113,248) | (112,469) | (116,267) | (121,267) |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca/ Benthyca Mewnol** | **52,647** | **56,519** | **55,717** | **60,051** |
| Reserfau defnyddiadwy | (65,725) | (60,587) | (53,077) | (50,860) |
| Darpariaeth Tymor Hir | (9,865) | (8,162) | (8,102) | (8,082) |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **(22,943)** | **(12,230)** | **(5,562)** | **1,109** |

Yn y Diwygiad i'r Cod Darbodus (Tachwedd 2012), nodir y dylai'r prif swyddog ariannol wneud trefniadau i fonitro mewn perthynas â dyled gros a'r gofyn cyllido cyfalaf ac yr adroddir am unrhyw wyriad iddo ef, gan y gallai unrhyw wyriad o'r fath fod yn arwyddocaol ac fe ddylai arwain at ymchwiliad pellach a chymryd camau priodol.

| | 31/03/2013 Gwir £000s | 31/03/2014 Amcangyfrif £000s | 31/03/2015 Amcangyfrif £000s | 31/03/2016 Amcangyfrif £000s |
|---|---|---|---|---|
| GCC | 165,924 | 169,003 | 171,984 | 181,318 |
| Dyled Gros | (113,227) | (112,484) | (116,267) | (121,267) |
| **Gwahaniaeth** | **52,647** | **56,519** | **55,717** | **60,051** |
| **Wedi benthyca yn uwch na'r GCC? (Ie/Na)** | **Na** | **Na** | **Na** | **Na** |

**Cronfeydd Defnyddiadwy**

Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd Defnyddiadwy'r Cyngor ar gyfer 2013/14 hyd at 2015/16 fel a ganlyn:

| | 31/03/2013 Gwir £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2015 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2016 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Reserfau Defnyddiadwy** | 67,725 | (60,587) | (53,077) | (50,860) |

## Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

### (a) Benthyca Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth. Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y benthyca net dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, a hefyd ar ben hynny yr amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Os oes gostyngiad yn unrhyw un o'r blynyddoedd hyn yn y gofyn cyllido cyfalaf, anwybyddir y gostyngiad hwn wrth amcangyfrifo'r cynnydd cronnus yn y gofyn cyllido cyfalaf a ddefnyddir er cymhariaeth â'r ddyled **gros** allanol.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferth cwrdd â'r gofyn hwn yn 2012/13 a 2013/14 (hyd yma), ac ni ragwelir unrhyw drafferthion ar gyfer y blynyddoedd i ddod ychwaith. Mae'r farn hon wedi rhoi ystyriaeth i ymrwymiadau presennol, cynlluniau sy'n bodoli eisoes a'r cynigion yn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo.

### (b) Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf

Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

| | 2013/14 Awdurdodwyd £m | 2013/14 Adolygwyd £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | **50.70** | **49.17** | **38.92** | **33.10** |

Ariennir neu cyllidir gwariant cyfalaf fel y ganlyn:

| Gwariant Cyfalaf | 2013/14 Awdurdodwyd £m | 2013/14 Adolygwyd £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau Cyfalaf | 1.07 | 1.53 | 1.29 | 1.68 |
| Grantiau Llywodraeth | 25.68 | 23.12 | 20.70 | 11.10 |
| Cyfraniadau Refeniw | 13.46 | 14.30 | 7.40 | 4.60 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **40.21** | **38.95** | **29.39** | **17.38** |
| Benthyca efo Cefnogaeth | 4.17 | 4.17 | 4.17 | 4.17 |
| Benthyca heb Gefnogaeth | 6.33 | 6.05 | 5.36 | 11.55 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **10.49** | **10.22** | **9.53** | **15.72** |
| **Cyfanswm Ariannu a Chyllido** | **50.70** | **49.17** | **38.92** | **33.10** |

Dengys y tabl uchod na ellir ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yn llwyr o ffynonellau ar wahân i fenthyca allanol.

### (c) Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:

Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido. Mae'r diffiniad o gostau cyllido i'w gael yn y Cod Darbodus.

Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar gostau net incwm o fuddsoddiadau.

| | 2013/14 Wedi'i gymeradwyo £m | 2013/14 Wedi'i adolygu £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | 5.24 | 5.24 | 5.24 | 5.37 |

### (d) Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Cyfrifir y CFR o'r symiau a ddelir ar y Mantolenni sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf, a'i gyllido.

| | 2013/14 Wedi'i gymeradwyo £m | 2013/14 Wedi'i adolygu £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | 160.39 | 169.00 | 171.98 | 181.31 |

### (e) Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor a Rhent Tai. Cyfrifir yr effaith ychwanegol (*incremental impact*) drwy gymharu cyfanswm y gofyn cyllideb refeniw yn y rhaglen gyfalaf cymeradwy presennol, gyda chyfrifiad cyfwerth o'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf | 2013/14 £ | Amcangyfrif 2014/15 £ | Amcangyfrif 2015/16 £ |
|---|---|---|---|
| Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor | 0 | 0 | 0 |

Mae gan gynlluniau cyfalaf y Cyngor, fel y'u hamcangyfrifwyd yn y blynyddoedd ariannol i ddod, effaith niwtral ar y dreth gyngor ac/neu renti tai. Adlewyrcha hyn y ffaith bod gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido'n bennaf gan adnoddau mewnol (grantiau, cyfraniadau, refeniw a derbyniadau cyfalaf) a chefnogir unrhyw gynnydd yn yr angen gwaelodol i fenthyca drwy'r system Grant Cynnal Refeniw.

**(f) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys yr ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau na thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod 2013/14. Cyrhaeddwyd brig o £113.3m o ran benthyca.

| | **Terfyn (Awdurdodedig) ar 31/03/2014 £000s** | **Terfyn Gweithredol (Awdurdodedig) ar 31/03/2014 £000s** | **Gwir Ddyled Allanol ar 30/09/2013 £000s** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 195,000 | 175,000 | 112,402 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 29 |
| **Cyfanswm** | **195,000** | **175,000** | **112,431** |

**(g) Mabwysiadu Cod Rheoli Trysorlys CIPFA**

Mae'r dangosydd yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion arferion gorau.

| **Mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA** |
|---|
| Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu Cod Rheoli Trysorlys CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011. |

Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau o'r Cod Ymarfer CIPFA diwygiedig yn ei bolisïau, gweithdrefnau ac arferion trysorlys.

**(h) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol**

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd cyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | Terfynau ar gyfer 2013/14 % | Uchafswm yn ystod 2013/14 % |
|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100 | 100 |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | | Ydy |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50 | 0 |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | | Ydy |

## (i) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | Terfyn Uchaf % | Terfyn Isaf % | Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/13 £'000 | % y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/13 | Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25 | 0 | 1,124 | 1.01 | Ydy |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25 | 0 | 0 | 0 | Ydy |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50 | 0 | 20,309 | 18.19 | Ydy |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75 | 0 | 5,896 | 5.28 | Ydy |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100 | 0 | 34,410 | 30.83 | Ydy |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100 | 0 | 22,533 | 20.19 | Ydy |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100 | 0 | 0 | 0 | Ydy |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100 | 0 | 27,352 | 24.50 | Ydy |
| 50 mlynedd a mwy | 100 | 0 | 0 | 0 | Ydy |

*(Mae adolygiad 2011 i God Rheoli Trysorlys CIPFA erbyn hyn angen y dangosydd darbodus sy'n ymwneud ag Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog i gyfeirio aeddfedrwydd benthyciadau LOBO at y dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu taliad, h.y. y dyddiad galw nesaf)*

## (j) Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod

Pwrpas y terfyn hwn yw ceisio atal y posibilrwydd o golled allai godi o ganlyniad i'r Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd.

| | 2013/14 Awdurdodwyd £000s | 30/09/13 Gwir £000s | 31/03/14 Amcangyfrif £000s | 31/03/15 Amcangyfrif £000s |
|---|---|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod** | 35,000 | 0 | 35,000 | 35,000 |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD RHAGLEN WAITH Y GRŴP ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU, A RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO O FEWN Y BROSES** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH, A PHENDERFYNU AR DREFNU GWEITHDY** |

---

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010), Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, a Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* (2007) a'i Atodiad (2012) gyda'u gilydd yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad o'i drefniadau llywodraeth o leiaf unwaith mewn blwyddyn, a chynnwys datganiad ar y drefn llywodraethu gyda'r cyfrifon.

1.2 Fel canlyniad, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'i Ddatganiad o Gyfrifon ers sawl blwyddyn bellach, ond daeth yn gynyddol amlwg nad oedd y modd yr oedd y Cyngor yn mynd ati i baratoi'r Datganiad – ac yn arbennig ei fethodoleg o adolygu ei system o lywodraethu – yn cwrdd ag ymarfer gorau.

1.3 Yn Ngorffennaf 2013, rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio gan Arweinydd Asesiad Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn dilyn adolygiad o brosesau awdurdodau lleol Cymru wrth gynnal eu hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu. O safbwynt Cyngor Gwynedd, mynegodd ei farn mai casgliad cyffredinol yr adolygiad yw nad oes perchnogaeth corfforaethol o hunanasesiad blynyddol y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ac nid oes trefniadau cadarn ar waith ar gyfer craffu arno a'i herio.

1.4 Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13 i'r un cyfarfod; bryd hynny esboniwyd i'r Pwyllgor fod Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ei sefydlu, a bydd y Grŵp yma yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan SAC. Mae'r Grŵp yn cadw golwg parhaus, mwy disgybledig ar faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, a hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

1.5 Aelodau'r Grŵp ydi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (DOW), Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg; un agwedd allweddol o'i waith yw ei fod yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

## 2. RHAGLEN WAITH

2.1 Mae'r Grŵp wedi cyfarfod ar 7 Tachwedd er mwyn trafod gwaith sydd wedi cael ei gyflawni ar agweddau llywodraethu gan wahanol wasanaethau yn ystod y flwyddyn hyd yma a chytuno ar raglen waith am y flwyddyn i ddod (hyd at baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2013/14). Ymysg y materion sydd yn derbyn sylw'r Grŵp yw'r materion a nododd SAC yn eu Llythyr Gwella Blynyddol (Medi 2013) oedd angen eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen gylchol o werthusiadau i gefnogi'r hunanasesiad o lywodraethu, sef:

- Yr hunanasesiad blynyddol o berfformiad;
- Rolau'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet Anffurfiol a chadeiryddion ac is-gadeiryddion y Fforwm Craffu wrth nodi ac ymdrin â meysydd o danberfformiad yn erbyn yr amcanion gwella; a
- Gwaith y tri phwyllgor craffu wrth nodi effeithiau polisïau'r Cyngor ar drigolion y sir.

2.2 Bydd y Grŵp yn cyfarfod eto ar:

- 25 Chwefror 2014
- 8 Ebrill 2014
- 2 Mehefin 2014
- 6 Hydref 2014

2.3 Mae SAC wedi cyflwyno trefn newydd o gynnal asesiadau corfforaethol cylchol ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi comisiynu'r Grŵp i adolygu adroddiadau asesiad corfforaethol SAC o'r cynghorau unigol fel maent yn cael eu cyhoeddi, gan adnabod y bylchau a mynd ati i sicrhau nad yw'r un gwendidau yn bodoli yng Ngwynedd. Bydd y Grŵp yn cwrdd yn ystod Rhagfyr 2013 i ystyried yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd dan y drefn newydd, sef adolygiad o Gyngor Casnewydd.

## 3. RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol o fewn trefniadau llywodraethu'r awdurdod – hwn yw'r Pwyllgor sydd wedi ei ddynodi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Golyga hyn fod ganddo'r dasg o sicrhau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gadarn.

3.2 Bydd angen i'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau rheolaidd o waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, sydd yn nodi:

- Materion Llywodraethu sy'n codi
- Beth mae'r Grŵp yn fwriadu ei wneud am y peth.

3.3 Fel rhan o hunanasesiad eleni o drefniadau llywodraeth, mae angen ystyried os ydi'r fframwaith lywodraethu sydd yn ei le ar hyn o bryd, a'r Côd Llywodraethu Lleol sy'n cwmpasu'r Fframwaith, yn parhau'n addas. Mae copi o'r Côd Llywodraethu Lleol cyfredol wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad yma.

3.4 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu felly yn awgrymu i'r Pwyllgor Archwilio wneud ei asesiad ei hun o'r egwyddorion llywodraethu da, a hynny mewn gweithdy gyda hwylusydd yn ystod Ionawr 2014. Yr egwyddorion llywodraethu da yw chwe egwyddor craidd Fframwaith CIPFA / SOLACE, sef:

| | |
|---|---|
| Egwyddor Graidd 1: | Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth). |
| Egwyddor Graidd 2: | Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir. |
| Egwyddor Graidd 3: | Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad. |
| Egwyddor Graidd 4: | Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg. |
| Egwyddor craidd 5: | Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol. |
| Egwyddor craidd 6: | Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn. |

3.5 Amcan y gweithdy fydd i aelodau'r Pwyllgor feddwl ble maent ystyried y mae cryfderau a gwendidau presennol Cyngor Gwynedd yng nghyd-destun yr egwyddorion hyn, a pa addasiadau dylid eu gwneud i'r Côd Llywodraethu Lleol. Ar yr un pryd bydd y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cynnal ei asesiad ei hun, ac ar ôl y gweithdy bydd yr holl sylwadau yn cael eu coladu a byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror.

## 4. ARGYMHELLIAD


4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn yr adroddiad yma fel diweddariad ar ddatblygu rhaglen waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gytuno i drefnu gweithdy yn ystod Ionawr 2014 er mwyn cynnal hunanasesiad o egwyddorion llywodraethu da, ac os yw'n gytûn, i benderfynu ar leoliad.

# CYNGOR GWYNEDD

# CÔD LLYWODRAETHU LLEOL

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn y dull gorau posib. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r chwe egwyddor craidd o "Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol" (*Cipfa/Solace 2007*).




Mae gan bob un o'r chwe egwyddor craidd nifer o egwyddorion cefnogol.

Ystyr “llywodraethu da” ydi sicrhau fod y fframwaith polisïau, systemau, gweithdrefnau a strwythurau sydd, gyda’i gilydd yn rheoli’r ffordd mae’r Cyngor yn gweinyddu ei fusnes, yn cydymffurfio hefo’r chwe egwyddor uchod.

Mae llywodraethu da yn golygu bod gwerthoedd a diwylliant y Cygnor yn gweddu i’r egwyddorion hyn.

Mae llywodraethu da yn golygu gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i’r bobl iawn, mewn modd amserol, gynhwysol, agored, onest ac atebol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod llywodraethu da yn arwain at reolaeth dda, perfformiad da, cysylltiadau da hefo’r gymuned ac yn y pen draw deilliannau da i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod 2010 cynhaliodd y Cyngor hunan asesiad o’i drefniadau llywodraethu gan asesu yn erbyn pum thema:

- llwyddiannau a chanlyniadau
- arwain a llywodraethu
- ymgysylltu â chwsmeriaid, cymunedau a phartneriaid
- rheoli adnoddau a pherfformiad
- trefniadaeth a phobl.

‘Roedd canlyniadau’r hunan asesiad yn adnabod mannau o gryfder ynghyd a materion i dderbyn sylw mewn cynllun gweithredu. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn yr hunan asesiad yn sail i’r Côd Llywodraethu Lleol.

Pwrpas y Côd Llywodraethu Lleol hwn yw crynhoi mewn un ddogfen yr egwyddorion mae’r Cyngor yn eu harddel wrth lywodraethu ynghyd â disgrifiad o’r polisïau, strategaethau a gweithdrefnau sy’n dangos sut mae’r Cyngor yn bwriadu cwrdd â nhw. Bydd yn ddogfen fyw ac fe ychwanegir ati wrth i bolisïau a strategaethau eraill gael eu datblygu yn dilyn yr hunan asesiad.

Bydd y Côd hwn yn cael ei adolygu’n flynyddol wrth i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei lunio.

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 1:** <u>Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).</u> |
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Ymarfer arweinyddiaeth strategol drwy ddatblygu a chyfathrebu'n glir bwrpas a gweledigaeth yr awdurdod a'r deilliannau a fwriedir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn ansawdd uchel o wasanaeth naill ai yn uniongyrchol, neu mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Sicrhau fod yr awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth am arian ardderchog. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Gwerthoedd y Cyngor.<br>• Cynllun Tair Blynedd y Cyngor<br>• Y Strategaeth Gymunedol<br>• Datganiad o'r cyfrifon<br>• Strategaeth ariannol<br>• Y drefn gwynion<br>• Y gyfundrefn 'Cyflawni'<br>• Y Côd Llywodraethu Lleol<br>• Llythyr blynyddol yr Archwiliwr. |

| |
|---|
| **Egwyddor graidd 2:** <u>Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.</u> |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar draws yr awdurdod a bod yn glir ynglŷn â swyddogaethau gweithredol ac anweithredol ac am rolau a chyfrifoldebau'r swyddogaeth graffu.<br>• Sicrhau fod perthynas weithio adeiladol yn bodoli rhwng aelodau a swyddogion yr awdurdod a bod cyfrifoldebau aelodau a swyddogion yr awdurdod yn cael eu cyflawni i safon uchel.<br>• Sicrhau fod perthynas rhwng yr awdurdod a'r cyhoedd yn glir fel bod y naill yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig oddi wrth y llall |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Cynllun dirprwyo i bwyllgorau<br>• Cynllun dirprwyo'r arweinyddion portffolio<br>• Cynllun dirprwyo i swyddogion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau aelodau<br>• Protocolau ar gyfer gweithredu swyddogaethau swyddogion statudol<br>• Protocol cyswllt aelod/swyddog<br>• Cynllun lwfansau aelodau |

| **Egwyddor graidd 3:** <u>Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.</u> |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau fod aelodau a swyddogion yr awdurdod yn arfer arweinyddiaeth trwy ymddwyn mewn ffyrdd sydd yn arddangos safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol.<br>• Sicrhau fod gwerthoedd y gyfundrefn yn cael eu hymarfer ac yn effeithiol |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Côd Ymddygiad Aelodau<br>• Côd Ymddygiad Swyddogion<br>• Safon Gwynedd<br>• Rheolau gweithdrefn y Pwyllgor Safonau<br>• Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>• Rheolau gweithdrefn y Cyngor<br>• Rheolau gweithdrefn ariannol<br>• Rheolau gweithdrefn contractau<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun archwilio mewnol<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - swyddogion<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - aelodau<br>• Polisi buddiannau swyddogion<br>• Aadroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. |

| **Egwyddor graidd 4:** <u>Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg.</u> |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Bod yn drwyadl a thryloyw ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau gan wrando a gweithredu ar ddeilliannau craffu adeiladol.<br>• Cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd uchel er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn effeithiol, a'u bod yr hyn y mae'r gymuned ei eisiau/angen.<br>• Sicrhau fod system effeithiol i reoli risg yn ei lle.<br>• Defnyddio pwerau cyfreithiol at fudd llawn trigolion a chymunedau yn eu hardal. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Strategaeth rheoli risg<br>• Rheolau gweithdrefn trosolwg a chraffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Strategaeth trosolwg a chraffu<br>• Rhaglen hyfforddi aelodau (Craffu).<br>• Rhaglen hyfforddi swyddogion (Trefniadau Cyfansoddiadol)<br>• Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio<br>• Y drefn gwynion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Cofnodion pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer "Canu'r Gloch".<br>• Llawlyfr Canllawiau i Gadeiryddion<br>• Y Strategaeth Gaffael<br>• Cofrestr Risgiau Corfforaethol |

| **Egwyddor craidd 5:** Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Gwneud yn siŵr fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, profiad ac adnoddau angenrheidiol er mwyn perfformio'n dda yn eu rolau.<br>• Datblygu capasiti'r bobl sydd â chyfrifoldebau llywodraethu a gwerthuso eu perfformiad, fel unigolion ac fel grŵp.<br>• Annog talent newydd ar gyfer aelodaeth yr awdurdod fel y gwneir y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau unigolion wrth fantoli parhad ac adnewyddiad. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Rhaglen anwytho aelodau newydd<br>• Strategaeth hyfforddi aelodau<br>• Cynllun datblygu personol aelodau<br>• Cynllun datblygu a hyfforddi swyddogion<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun olyniaeth<br>• Y drefn recriwtio<br>• Siarter Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>• Fframwaith cymwyseddau rheoli |

| **Egwyddor craidd 6:** Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Ymarfer arweinyddiaeth trwy swyddogaeth graffu gadarn sydd yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl leol a phob budd-ddeiliad sefydliadol lleol, gan gynnwys partneriaethau, a datblygu perthnasau atebol adeiladol.<br>• Cymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i ddeialog gydag, ac atebolrwydd i'r, cyhoedd er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac addas, naill ai yn uniongyrchol gan yr awdurdod, mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol trwy gymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i gwrdd â chyfrifoldebau i staff. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Adroddiad blynyddol craffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer Cynllunio.<br>• Adroddiad blynyddol "Cyrhaeddiad y Cyngor".<br>• Y Strategaeth Gymunedol "Gwynedd ar y Cyd". |

<u>**CYNGOR GWYNEDD**</u>

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 TACHWEDD 2013** |
| AWDUR | **TREVOR O EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 10 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2013, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst 2013. Derbyniodd 3 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Felly, yn y Pwyllgor penderfynwyd:

**a) Bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' –**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell, Bob Wright a Mr John Pollard.**

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 11 Tachwedd yn Ystafell Glyder Fach, gyda Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorwyr Angela Russell, Bob Wright a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Pollard a'r Cyngohrydd John Pughe Roberts.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH |
|---|---|---|
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | Corfforaethol | |
| Polisi Buddiannau Swyddogion | Corfforaethol | |
| Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod y tri adroddiad.

2.4 Rhoddwyd sylw i'r crynodebau hyn yn eu tro gan aelodau'r Gweithgor. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cynnig cefndir pellach, gan gynnwys cyflwyno pwyntiau perthnasol o'r adroddiad llawn. Roedd Uwch Reolwyr wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sydd yn codi, ac yn anad dim y gwaith sydd wedi ei wneud ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

**2.5 Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch**

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

*Edrychwyd ar sampl eang o wasanaethau ar gyfer yr archwiliad yma a gwelwyd bod amrediad eang o gydymffurfiaeth yn bodoli h.y. bod enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai gwasanaethau a diffyg cydymffurfiaeth yn llwyr mewn un gwasanaeth.*

*Un o brif ddarganfyddiadau archwiliad yw nad oedd un rheolwr yn ymwybodol o'r gofyn a'r cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles y gwasanaeth. Mae'n hanfodol fod pob Rheolwr yn sicrhau fod ganddynt y prosesau priodol mewn lle fel y gellid gwarchod aelodau o staff, y cyhoedd ac unrhyw un arall sy'n dod mewn cysylltiad â hwy yn eu gweithgareddau.*

*O'r gwasanaethau / safleoedd eraill, gwelwyd bod asesiadau risgiau yn bodoli yn ogystal â threfniant ym mhob un heblaw am un gwasanaeth i'w hadolygu'n amserol. O'r gwasanaethau/safleoedd a oedd wedi paratoi asesiadau risg, gwelwyd bod y mwyafrif ohonynt yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, dylid atgoffa'r rheolwyr o'r angen i sicrhau bod eu cynnwys yn cael ei gyfleu i'r aelodau o staff mewn modd lle gellid sicrhau eu bod wedi eu deall yn ddigonol i allu eu gweithredu'n effeithlon.*

2.5.2 Croesawyd Geraint Owen, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Catrin Love, Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles i'r cyfarfod.

2.5.3 Esboniodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod yr archwiliad wedi ei gynnal ar ei gais ef, gan ei fod yn gweld archwiliad o'r fath yn arf gwerthfawr wrth geisio rhoi trefn yn ei le er mwyn i faterion Iechyd a Diogelwch gael eu hystyried yn rhan o waith dydd i dydd rheolwyr yn hytrach na baich ychwanegol. Pwysleisiwyd mai rheolwyr sydd yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch eu staff a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo, gan gynnwys sicrhau amgylchedd ddiogel i gwsmeriaid ac ymwelwyr.

2.5.4 Yn sgil beirniadaeth o drefniadau'r Cyngor gan Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) yn 2004, bu ymgyrch o fewn y Cyngor i gynnal asesiadau risg Iechyd a Diogelwch. Y disgwyliad oedd fod gwasanaethau yn paratoi cofrestrau risg yn y modd arferol, gan adnabod risgiau, y camau gweithredu sydd eisoes yn eu lle, ac unrhyw gamau gweithredu arall sydd yn angenrheidiol. Gofynnwyd am yr archwiliad yma gan fod pryder nad oedd y cofrestrau hyn wedi bod yn cael eu cynnal a'u diweddaru yn gyson ers hynny.

2.5.5 Er hyn, **derbyniodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau sicrwydd fod yr Uned Iechyd, Diogelwch a Lles ganolog yn parhau i gynnig cefnogaeth yn y maes yma.** Cyflwynwyd y canlynol fel tystiolaeth:

- Cyflogir ymgynghorwyr Iechyd, Diogelwch a Lles i gefnogi gwasanaethau, a darperir cwrs hyfforddi penodol hanner diwrnod ar asesu risg i reolwyr y Cyngor. Yn y 2 flynedd ddiwethaf, mae 38 sesiwn wedi eu cynnal gydag oddeutu 400 o swyddogion yn mynychu.
- Gall rheolwyr perthnasol hefyd dderbyn hyfforddiant Rheoli'n Ddiogel sy'n gwrs 4 diwrnod â chydnabyddiaeth IOSH (Institute of Occupational Safety & Health). Roedd yr Uwch Reolwr o'r farn fod hwn yn gwrs sydd yn newid ffordd o feddwl a diwylliant, ac fod gwahaniaeth amlwg i'w weld mewn rhai adrannau'n barod fel canlyniad iddo.
- Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio ar ddatblygu data-bas asesu risg, fydd yn caniatáu i'r tîm canolog gael mynediad i'r holl asesiadau risg Iechyd a Diogelwch. Bydd y data-bas yn weithredol yn yr wythnosau nesaf, a bydd yn rhoi cyfle i gysylltu asesiadau risg, a rhoi trosolwg o pa rai sydd yn eu lle, a pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf.

- Mae'r Aelod Cabinet dros Adnoddau wedi ei enwi'n Bencampwr Iechyd a Diogelwch y Cyngor, a roddwyd cyflwyniad ganddo i'r Cyngor llawn ym Medi 2013. Mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu dan ei gadeiryddiaeth. Roedd aelodau'r Gweithgor yn gytûn fod yr hyfforddiant a gynigir i aelodau yn defnyddiol, gan ei fod yn cynnig cyflwyniad ar lefel strategol i faes Iechyd a Diogelwch.

2.5.6 Gofynnodd y Gweithgor am achos yr unigolyn oedd yn y sampl nad oedd yn deall yr angen i asesu risgiau, yn ôl yr adroddiad. Eglurodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod hwn yn enghraifft o sefyllfa lle mae'r adroddiad wedi arwain at welliant. Mae swyddogion o'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles wedi cyfarfod gyda'r rheolwr yma a'u rheolwr llinell, ac mae sesiwn hyfforddi o ddiwrnod cyfan wedi ei drefnu ar gyfer y tîm cyfan y rheolwr yma.

2.5.7 Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn awyddus i bwysleisio mai sampl o reolwyr yn unig a holwyd wrth gynnal yr archwiliad. Yn yr achos yma, roedd un rheolwr angen gwella eu dealltwriaeth, ond mae'n bosib y byddai sampl gwahanol yn awgrymu fod diffyg dealltwriaeth ehangach ar draws y Cyngor.

***Ysgolion***

2.5.8 Nid oedd cwmpas yr archwiliad yma yn cynnwys ysgolion – mae'r ysgolion yn destun archwiliad ar wahân, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y Gweithgor yn awyddus i gael eglurder ynglŷn â'r gwahanol rolau o fewn y Cyngor. Eglurwyd fod un ymgynghorydd yn y Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles, yn ogystal â swyddog o'r Adran Addysg, yn treulio ei holl amser yn cefnogi ysgolion gyda materion Iechyd a Diogelwch. Rhoddir hyfforddiant i benaethiaid ysgolion ar reoli safle, ac o safbwynt Cymorth Cyntaf, nid yw pob aelod o staff mewn ysgolion wedi cael yr hyfforddiant perthnasol, ond mae o leiaf un. Mae'r nifer yn dibynnu ar faint yr ysgol.

***Adrodd ar ddamweiniau***

2.5.9 Pan fydd damwain yn digwydd mae angen llenwi ffurflen HS11 er mwyn adrodd arno, os yw'r unigolion yn aelod o staff neu'n ddisgybl mewn ysgol. Caiff oddeutu 2500 o ffurflenni HS11 eu llenwi ar draws y Cyngor pob blwyddyn.

2.5.10 Esboniwyd fod gorgyffwrdd yn gallu digwydd rhwng gwahanol bolisïau. Er enghraifft, mae asesiadau risg ar fynediad i adeiladau ysgolion yn ymgorffori agweddau diogelu yn ogystal â Iechyd a Diogelwch.

***Cefnogaeth aelodau***

2.5.11 Gofynnwyd i'r Uwch Reolwr Adnoddau Dynol os oedd yn derbyn argymhellion yr adroddiad. Atebodd ei fod, ac esboniodd fod yr argymhellion wedi eu blaenoriaethu'n briodol.

2.5.12 Roedd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol yn awyddus i bwysleisio mai'r egwyddor graidd ydi cael Rheolwyr i reoli eu safle a chymryd y cyfrifoldeb eu hunain, nid dibynnu ar yr Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles i wneud y gwaith drostynt.

2.5.13 Mae'r Gweithgor yn gefnogol o'r ymagweddiad yma, ac yn falch o glywed fod yr adroddiad wedi bod o gymorth i godi proffil y pwnc ymhellach. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod yr adroddiad eisoes yn dwyn ffrwyth.

2.5.14 Dywedodd Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ei fod yn croesawu cefnogaeth y Gweithgor a'r Pwyllgor Archwilio.

2.5.15 Nodwyd gan yr Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles fod rhai rheolwyr yn meddwl nad oes angen iddynt fynychu'r cwrs am nad ydynt yn credu ei fod yn berthnasol, ond pan maent yn ei fynychu maent yn sylweddoli ei bwysigrwydd.

**2.5.16 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a'r Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles am eu cyflwyniad a'r gwaith y maent yn ei gyflawni. Roedd y Gweithgor yn awyddus i gefnogi'r ymdrech i godi proffil y pwnc, ac yn awyddus i'r Pwyllgor Archwilio anfon neges i Benaethiaid Adran sicrhau fod y rheolwyr hynny nad ydynt eto wedi mynychu'r cwrs Asesu Risg Iechyd a Diogelwch yn gwneud hynny.**

## 2.6 Polisi Buddiannau Swyddogion

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn dilyn newid i'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a ddaeth yn weithredol o 12 Ionawr 2010 nid yw swyddi bellach yn cael eu cyfyngu ar sail eu cyflog. Yn hytrach mae dau gategori o swyddi yn cael eu cyfyngu yn wleidyddol sef swyddi penodol a swyddi sensitif. Felly mae angen ddiweddaru'r Polisi Buddiannau Swyddogion yn ogystal â'r cofrestrau. Dylid nodi bod y newidiadau gwleidyddol yma ddim yn effeithio ar yr angen i gofrestru buddiannau ac mae'r trothwy ar gyfer cofrestru gwirfoddol yn parhau i fod yn PO44.*

*Mae'r gyfraith yn datgan y dylid cadw cofrestr o'r swyddi 'sensitif' ond roedd yn amlwg bod y rhestr gyfredol o'r swyddi 'sensitif' angen ei ddiweddaru oherwydd nid yw sawl swydd yn bodoli o fewn y Cyngor mwyach. Cytuna'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y buasai yn ddefnyddiol i gadw rhestr o'r swyddi penodol hefyd.*

*Nid oedd cymal penodol wedi ei gynnwys yng nghytundebau gwaith/swydd ddisgrifiadau'r swyddogion â swyddi cyfyngedig gwleidyddol.*

2.6.2 Croesawyd Sion Huws, Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (Adran Democratiaeth a Chyfreithiol) i'r cyfarfod i drafod yr adroddiad.

2.6.3 Er mwyn rhoi'r gwaith yn ei gyd-destun, esboniodd y Rheolwr fod y Polisi Buddiannau Swyddogion yn ymgorffori 3 gwahanol faes, sef:

- Buddiannau
- Cyflogaeth oddi allan
- Cyfyngiadau gwleidyddol

***Buddiannau***

2.6.4 Eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith nad yw hi'n fandadol cael Polisi Buddiannau i swyddogion, ond mai barn Cyngor Gwynedd oedd y dylid cael un. Derbyniodd y Gweithgor fod hyn yn arfer dda, fel bod unrhyw swyddogion yn datgan cysylltiad personol sydd ganddynt allasai effeithio ar eu gallu i gyflawni eu gwaith yn briodol. Mae hyn yn berthnasol hefyd i bob swyddog sy'n derbyn cyflog dros bwynt 44 ar dabl cyflogau'r Cyngor, sydd angen cofrestru pob cysylltiad perthnasol.

***Cyflogaeth oddi allan***

2.6.5 Nodwyd fod modd i gyflogaeth oddi allan greu cysylltiadau personol a all gael effaith ar allu'r unigolyn i gyflawni eu swydd gyda'r Cyngor mewn modd gwrthrychol, ond mae angen elfen o disgresiwn yma, yn ddibynnol ar berthnasedd y gyflogaeth yma i'r swydd gyda'r Cyngor. Fodd bynnag, nodwyd bod rhaid i swyddogion dros bwynt cyflog penodol (pwynt 29) dderbyn caniatâd eu Pennaeth adran cyn derbyn gwaith allanol. Clywodd y Gweithgor fod materion yn ymwneud â'r "Working Time Directive" hefyd yn berthnasol. Yr hyn sydd yn bwysig yw nad yw cyflogaeth oddi allan yn tanseilio priodoldeb, ac roedd y Gweithgor yn derbyn y gallai'r gyflogaeth allanol fod yn waith hollol wahanol i'r gwaith gyda'r Cyngor, a heb gysylltiad o gwbl.

***Cyfyngiadau gwleidyddol***

2.6.6 Canlyniad y cyfyngiad yma yw na all unigolion mewn swyddi penodol ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol, e.e. canfasio. Yr egwyddor sylfaenol yw fod angen i'r cyhoedd fod yn hapus na all swyddogion sy'n rhoi cyngor i aelodau gael effaith wleidyddol. Yn y gorffennol roedd pob swydd dros lefel cyflog 44 wedi ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth, ond erbyn hyn y swyddi sydd wedi eu cyfyngu yw prif swyddogion, pennaeth adran neu rhywun sydd yn adrodd yn uniongyrchol iddynt, swyddogion sy'n cynghori pwyllgor neu unigolyn sy'n siarad ar ran y Cyngor (mae'r ddau olaf yn fwy amwys na'r gweddill).

***Argymhellion yr Adroddiad***

2.6.7 Roedd y Rheolwr yn derbyn argymhellion yr adroddiad, ond roedd o'r farn fod angen ailymweld â'r Polisi yn ddyfnach; tra'n derbyn yr argymhellion, gellir mynd ymhellach:

- Pan luniwyd y Polisi cyfredol, penderfynwyd uno'r tri elfen sydd ynddo gyda'i gilydd er mwyn hwyluso'r drefn; cyn hynny yr Adran Adnoddau Dynol oedd yn gyfrifol am y Polisi Cyflogaeth Oddi Allan. Bellach, mae angen cael trafodaeth i weld os byddai'n briodol symud yr elfen am gyflogaeth oddi allan yn ôl i Adnoddau Dynol, oherwydd y mecanwaith sydd bellach yn ei le.
- Clywodd y Gweithgor fod elfen o ddyblygu yn digwydd ar hyn o bryd gan fod yr Adran Cyllid yn gofyn i swyddogion (ac aelodau) gyflwyno datganiad "trafodion cysylltiedig" pob blwyddyn. Roedd y Rheolwr yn teimlo fod lle i anfon un ffurflen allan yn lle dau. Byddai'n well sefyllfa, ac yn gyfle i ddiweddaru'r data-bas yn flynyddol. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai dyna yw barn yr Adran Cyllid hefyd.

2.6.8 Mae gan y Cyngor Bolisi Rhoddion a Lletygarwch ar wahân i'r Polisi Buddiannau, ac fod angen ymweld â hwnnw eto hefyd. Fodd bynnag, roedd hwn y tu allan i gwmpas yr archwiliad yma.

**2.6.9 Diolchwyd i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith am y drafodaeth. Mae'r Gweithgor yn cefnogi'r bwriad i ddatblygu un ffurflen at ddibenion yr Adran Cyllid a'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol ill dau, ac yn argymell i'r Pwyllgor Archwilio annog cydweithio rhwng y ddwy adran i wireddu hyn.**

**2.7 Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)**

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Rhaid bod yn wyliadwrus wrth fynegi barn cyffredinol ar sefyllfa ysgolion oherwydd bod y canran o ymatebion i'r holiadur a anfonwyd i'r ysgolion mor isel. Fodd bynnag mae'r amrywiad yn nghynnwys yr atebion yn amlygu'r amrywiad sydd yn sefyllfaoedd yr ysgolion yn y maes yma.*

*Mae templedi o bolisïau rheoli meddalwedd wedi eu cynhyrchu gan yr Adran Addysg a wedi eu mabwysiadu gan rai ysgolion. Mae rhai ysgolion eraill wedi datblygu eu polisïau eu hunain yn seiliedig ar ymarfer da. Ymddengys y buasai'n briodol ailgyflwyno'r templed i'r ysgolion gyda'r amcan o gael polisi rheoli meddalwedd ffurfiol ym mhob ysgol.*

*Mae sgôp i gyflwyno ffurf i ysgolion adnabod cynnwys eu cyfrifiaduron fel bod modd iddynt gysoni gyda'r cytundebau defnydd mewn lle. Ar adeg yr archwiliad, mae adnodd sydd yn cynnig datrysiad yn y maes yma yn cael ei dreialu.*

*Yn ystod trafodaethau mewn perthynas â'r gwaith yma, gwelwyd yr opsiynau amrywiol sydd yn cael eu cynnig gan wneuthurwyr meddalwedd ar gyfer sefydlu cytundeb defnydd gydag ysgolion. Ar adeg yr archwiliad, deallir fod un gwneuthurwr sylweddol wedi cyflwyno cynllun trwyddedu newydd sydd â photensial i roi ysgolion mewn sefyllfa o anghydymffurfiad â deddfwriaeth hawlfraint yn sgîl y dull y mae rhai eitemau o feddalwedd sydd eisoes wedi ei archebu ac wedi ei osod ar galedwedd.*

*Deallir fod ysgolion yn wynebu sefyllfa o golled ariannol yn sgîl ail-archebu meddalwedd ond mae angen mantoli hynny yn erbyn y gost amcangyfrifiedig y ddirwy am dorri cytundebau defnydd.*

2.7.2 Croesawyd Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau yn yr Adran Addysg, i'r cyfarfod. Er fod yr Adran Addysg yn cynnig cefnogaeth, pwysleisiwyd fod ysgolion yn endidau unigol. Nodwyd fod y pwnc yma wedi cael sylw gan Archwilio Mewnol yn y gorffennol, ac fod templedi wedi eu paratoi a'u dosbarthu i ysgolion gan yr Adran Addysg.

2.7.3 Nodwyd mai dim ond 21% o ysgolion oedd wedi ymateb i gais Archwilio Mewnol am wybodaeth.

2.7.4 Clywodd y Gweithgor nad os oes rhaid i ysgolion brynu cyfarpar cyfrifiadurol o un man. Esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau fod yr arian wedi ei ddatganoli i'r ysgolion ac mai eu penderfyniad hwy ydi pwy i brynu ganddynt. Mae'r mwyafrif yn prynu trwy gwmni Cynnal, ond nid pob un. Mae Cynnal hefyd yn cynnig gwasanaeth cefnogi a chynnal yr offer.

2.7.5 Roedd yr Uwch Reolwr yn gwbl glir mai'r ysgol, nid yr Adran Addysg, fyddai'n gorfod talu dirwy petai un yn cael ei godi. Mae hyn yn gyffelyb i'r drefn o safbwynt diogelu data.

***Datblygiadau pellach***

2.7.6 Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd i uwchraddio'r ddarpariaeth band eang i bob ysgol, gan osod isafswm o gyswllt i bod ysgol, gan gynnwys darpariaeth diwifr. Fel canlyniad i hyn, bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cynnal yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r newidiadau.

2.7.7 O safbwynt defnydd o declynnau personol, adroddwyd fod y Cyngor yn bell o fod mewn sefyllfa i ddefnyddio prosesau "bring your own device" ar hyn o bryd, sef caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio eu teclynnau eu hunain yn yr ysgol.

2.7.8 Er hyn, clywodd y Gweithgor fod y Cyngor yn cymryd rhan yn Hwb, cynllun Llywodraeth Cymru, sydd â'r bwriad o greu amgylchedd ddysgu rhithwir. Mae gan y cynllun yma'r potensial o ddarparu meddalwedd mewn cwmwl sy'n golygu na fyddai angen i ddisgyblion fod â'r meddalwedd ar eu peiriannau eu hunain. Clywyd fod Hwb yn cael ei rowlio allan ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor wedi derbyn grant gan y Llywodraeth er mwyn ei wireddu.

***Argymhellion yr Adroddiad***

2.7.9 Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr fod yr Adran Addysg yn derbyn yr argymhellion, ac yn ei weld fel modd o gefnogi'r hyn y mae'r Adran eisoes yn ei wneud. Mae'r Uwch Swyddog Gwella Ansawdd Addysg yn gyfrifol am hybu polisïau fel rhan o'i ddyletswyddau, ac mae'n cyflawni gofynion tri o argymhellion yr adroddiad, sy'n ymwneud â hybu polisïau a rhannu ymarfer dda.

2.7.10 O ran yr argymhelliad arall, sef hyrwyddo pecynnau archwilio cynnwys cyfrifiaduron, clywyd fod peilot wedi dechrau peth amser yn ôl ac mai Cynnal sy'n treialu'r meddalwedd.

**2.7.11 Roedd y Gweithgor yn siomedig ar nifer isel yr ysgolion oedd wedi yr ymateb i gais Archwilio Mewnol am wybodaeth, ac am i'r Pwyllgor Archwilio anfon neges i ysgolion fod angen cymryd ceisiadau am wybodaeth gan yr Archwilwyr o ddifrif.**

**2.7.12 Roedd y Panel hefyd am i'r neges fynd i'r holl ysgolion y dylent sicrhau fod ganddynt y trwyddedau addas ar gyfer eu meddalwedd ac os nad oes, mai eu cyfrifoldebau hwy fydd talu unrhyw ddirwyon fyddai'n codi am dramgwyddo amodau trwyddedau meddalwedd.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 HYDREF 2013** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2013 hyd at 31 Hydref 2013.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2013:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 11 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 4 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2013, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Y Drefn Gwynion Corfforaethol | Corfforaethol | | C | Atodiad 1 |
| Cyflogau - Blaendaliadau | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 2 |
| Porthladdoedd | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | C | Atodiad 3 |
| Canolfannau Croeso | Economi a Chymuned | Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer | B | Atodiad 4 |
| Logio a Monitro | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 5 |
| Cynlluniau Galluogi | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Oedolion | B | Atodiad 6 |
| Taliadau Uniongyrchol | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Oedolion | C | Atodiad 7 |
| Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Tai Sector Breifat | B | Atodiad 8 |
| Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Tai Sector Breifat | B | Atodiad 9 |
| Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | C | Atodiad 10 |
| Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd | Strategol a Gwella | Democratiaeth | B | Atodiad 11 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **"Canlyniadau'n Cyfrif"** *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden).* Mae "Canlyniadau'n Cyfrif" (*Results Based Accountability*) yn fethodoleg cynllunio busnes sy'n cael ei gyflwyno o fewn rhai unedau o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden. Pwrpas yr archwiliad oedd gweld pa effaith oedd y weithdrefn yma yn ei gael ar reoli risg o fewn y gwasanaethau oedd yn ei ddefnyddio. Ar sail adolygiad o'r defnydd a wneir o'r fethodoleg, oedd yn cynnwys trafodaeth gydag Uwch Reolwyr ac adolygu papurau gwaith, mae Archwilio Mewnol yn fodlon nad yw'r weithdrefn yn cael ei weld fel cymryd lle arferion rheoli risg, ac felly ni welir fod mabwysiadu "Canlyniadau'n Cyfrif" yn fanwl mewn rhai unedau, ac i raddau llai mewn unedau eraill, yn cael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i reoli ei risgiau.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Blas am Oes *(Addysg)*
- Grant Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol *(Addysg)*
- Grant Gwisg Ysgol *(Cyllid)*
- Grantiau Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw a Hyfforddiant *(Economi a Chymuned)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRANNAU | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|
| Cyfarpar gan Cyn-aelodau | Strategol a Gwella / Gofal Cwsmer | **Annerbyniol** |
| Trefniadau TG i aelodau | Strategol a Gwella / Gofal Cwsmer | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**
Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden
Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Prosesu Data Cyflenwyr Ynni
Gwiriadau DBS Staff
Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2014**
Siopau Gwynedd
Rheoli Newid i Systemau TG

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**
Tocynau Teithio Rhad
Taliadau Uniongyrchol
Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Polisi Buddiannau Swyddogion
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2014**
Porthladdoedd
Y Drefn Gwynion Corfforaethol

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Tachwedd 2013.

### 3.2 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion *(Addysg)*
- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion *(Addysg)*
- Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid *(Addysg)*
- Gweithio mewn Partneriaethau *(Corfforaethol)*
- Gwirio Mesuryddion Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Corfforaethol)*
- Cyflogau - Tâl Mamolaeth *(Cyllid)*
- Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau *(Cyllid)*
- Parciau Gwledig *(Economi a Chymuned)*
- Swyddogion Adfywio Bro *(Economi a Chymuned)*
- Gwynedd Ni *(Gofal Cwsmer)*
- Grantiau Cyngor Chwaraeon *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Plant - Lwfansau Ôl-ofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Dilyniant - Cofnodi a Rheoli Gwyliau *(Corfforaethol)*
- Dilyniant - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth *(Gofal Cwsmer)*
- Gwastraff Masnachol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gweithiau Adenilladwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Cronfa SMAP *(Strategol a Gwella)*
- Hyfforddi Aelodau *(Strategol a Gwella)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2013 i 31 Hydref 2013, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# Y DREFN GWYNION CORFFORAETHOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio â "Trefn Gwynion Cyngor Gwynedd", bod cofnodion digonol yn cael eu cynnal o'r holl gwynion ynghyd â sicrhau bod ymatebion swyddogion o'r ansawdd a'r safon gorau. Roedd yr archwiliad hefyd yn ystyried canllawiau'r Cyngor yng nghyd-destun y drefn a osodwyd gan Grŵp Cwynion Cymru yn y "Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol a Chanllawiau".

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd cofnodion trawstoriad o wasanaethau i sicrhau bod gweithdrefnau perthnasol mewn lle ar gyfer ymdrin â chwynion yn briodol ac amserol. Cymerwyd sampl o gwynion a oedd wedi eu cyfeirio at Brif Swyddogion y Cyngor. Nid oedd yr archwiliad hwn yn cwmpasu cwynion a dderbynnir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol nag ysgolion oherwydd bod trefn statudol arbennig yn bodoli ar gyfer y cwynion hynny.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn y polisi cyfredol mae tri cam - sef cwyn anffurfiol, cwyn ffurfiol (ymateb y gwasanaeth) ac yna yr adolygiad annibynnol (y Panel Cwynion sydd yn cynnwys y Swyddog Monitro ac un Prif Swyddog annibynnol). Fodd bynnag mae Grŵp Cwynion Cymru wedi cyflwyno cynigion ar gyfer polisi cwynion cyffredin i'w defnyddio gan Ddarparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Argymhellir gweithdrefn dau gam sef cam 1 - Datrys Anffurfiol ac yna Cam 2 - Ymchwilio mewnol ffurfiol gyda'r egwyddor o "Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda". Mae'r pwyslais felly ar ddatrys ar gam 1.

Nid yw rhai elfennau yn glir yn y polisi cyfredol e.e. y drefn ar gyfer achwynwyr o dan 18 mlwydd oed, neu ar gyfer cyflwyno cwyn ar ran unigolyn arall. Nid oes cyfeiriad yn y polisi bod yr un drefn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhain. Hefyd nid yw'r amser a roddir ar gyfer cydnabod cwyn yn gyson gyda chynigion 'Grŵp Cwynion Cymru'. Mae'n amlwg bod y drefn gwynion angen ei ddiweddaru ac efallai cyfleu rhai pwyntiau yn gliriach.

Nid oes gan staff rheng-flaen y Cyngor sydd yn delio â chwsmeriaid yn ddyddiol llawer o ymwybyddiaeth ynglŷn â chynnwys y polisi er eu bod ymwybodol o'r wefan a'r ffurflen cyflwyno cwyn electronig. Mynegir yn y Polisi Cwynion Enghreifftiol, Grŵp Cwynion Cymru y dylai staff rheng-flaen gael eu hyfforddi a'u hannog i ddarparu gwybodaeth briodol am gymorth cynghori ac eiriolaeth ar gam 1 o'r broses. Hefyd nid oes dogfennau addysgiadol ar gyfer gwneud/cyflwyno cwynion i'r cwsmeriaid mewn sefydliadau cyhoeddus y Cyngor e.e. Siopau Gwynedd. Yn dilyn adolygu'r polisi, dylai bod trefniadau ar gyfer hyrwyddo bodolaeth y weithdrefn.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Y Drefn Gwynion Corfforaethol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cylchredeg polisi'r Cyngor 'Y Drefn Gwynion Corfforaethol' i holl staff perthnasol y Cyngor pan gaiff ei ddiweddaru ynghyd â chodi ymwybyddiaeth ohono yn y Colegau Uwch Reolwyr a'r Fforymau Rheolwyr Canol.**
- **Dylid diweddaru'r canllawiau 'Y Drefn Gwynion Corfforaethol' i adlewyrchu'r cynigion a wnaethpwyd gan y Grŵp Cwynion Cymru yn y "Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol i'w Ddefnyddio gan Ddarparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru".**
- **Dylid adolygu'r polisi mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau mewnol ffurfiol a dylai rolau gael eu diffinio'n glir, e.e. swyddogion sy'n cyd-drefnu cwynion a chyd-gordio ymatebion, Cabinet gyda chyfrifoldeb am adolygu adroddiadau ar y nifer a math o gwynion a'u canlyniadau ac amlder hynny.**

# CYFLOGAU - BLAENDALIADAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer gweithredu blaendaliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesiad o'r agweddau cyffredinol ar gyfer prosesu blaendaliadau ynghyd ag adolygiad o'r mesurau hyn ar gyfer gweithredu sampl o flaendaliadau 2012/13. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys gwiriad o gyfrifiadau didyniadau treth ac yswiriant gwladol.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r drefn oedd mewn lle ar gyfer gweithredu blaendaliadau ar adeg yr archwiliad yn y broses o gael ei disodli i ran helaeth oherwydd newid yng ngofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y dull a'r amserlen y mae'r Cyngor yn eu hysbysu am daliadau cyflog. Fodd bynnag, fe fydd yr arferiad o weithredu blaendaliadau yn parhau a bydd y broses bresennol yn parhau i fod yn opsiwn i'w weithredu petai angen. Nodwyd anghysondeb ar y system gyflogau ar adeg yr archwiliad rhwng y cofnodion ar y sgrin o daliadau hanesyddol a'r taliadau a gyflawnwyd mewn gwirionedd. Ni adnabuwyd diffygion yn y taliadau yn sgîl yr anghysondeb yma. Fe dynnwyd sylw rheolwyr y Gwasanaeth Cyflogau at y mater yma fel rhan o'r gwaith maes a deallwyd eu bod wedi ei ddatrys.

Nodwyd fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer y defnydd o'r gyflogres blaendaliadau gan gynnwys cyfyngu hawliau mynediad i oruchwylwyr a bod y broses o greu cofnodion unigolion taladwy yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau â'r broses arferol o greu cofnodion staff a pensiynwyr. Gwelwyd fod sgôp i ffurfioli'r polisi sydd mewn lle ar gyfer penderfynu pryd y byddai yn briodol i gyflawni blaendaliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Blaendaliadau Cyflog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ffurfioli'r polisi ar gyfer gweithredu blaendaliadau drwy ddogfennu'r meini prawf fel rhan o'r broses dogfennu'r gweithdrefn newydd yn sgîl yr addasiad yn y drefn adrodd am daliadau cyflog a phensiwn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.**

**Atodiad 3**

# PORTHLADDOEDD
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ym mhorthladdoedd Gwynedd er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymweld â sampl o borthladdoedd yng Ngwynedd a gwirio fod eu trefniadau archebu a thalu anfonebau yn gywir yn ogystal â'u trefniadau derbyn a bancio incwm. Gwirio fod cwsmeriaid yn cyflwyno'r manylion digonol i borthladdoedd a bod eu trefniadau codi anfoneb ar gwsmeriaid yn gywir. Gwirio fod trefniadau a chofnodion iechyd a diogelwch porthladdoedd yn ogystal â defnydd o gerbydau'r Cyngor yn ddigonol ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol. Gwirio bod cofnodion pryniant a gwerthiant disel coch mewn porthladdoedd yn cysoni gyda'r stoc, a bod triniaeth TAW gyda disel coch yn gywir ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod anfonebau yn cael eu prosesu'n gywir ac wedi eu cyfrifo a'u cyfeirebu'n gywir, ond ni chafodd rhai eu talu o fewn y nifer o ddyddiau yn unol â pholisi'r Cyngor. Adnabuwyd gwendidau yn y broses codi ffioedd ar gwsmeriaid a'r broses o dderbyn a bancio incwm. Yn ogystal, adnabuwyd gwendidau ar yr agwedd iechyd a diogelwch yn y porthladdoedd gydag asesiadau risg a chofnodion gwiriadau offer diogelwch ddim yn cael eu cadw'n gyfredol. Amlygwyd nifer o wendidau yn nhrefniadau gwerthu disel coch i gwsmeriaid, ac nid oedd modd i'r archwiliwr cysoni pryniant, gwerthiant a stoc disel coch o'r cofnodion a dderbyniwyd yn ystod yr archwiliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddol ym mhorthladdoedd Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cwsmeriaid yn arwyddo a dyddio'r 'Ffurflen Cadarnhau Angorfeydd' ar bob achlysur, er mwyn derbyn cadarnhad eu bod yn cytuno gydag amodau a thelerau'r Cyngor, a'u bod gyda pholisi yswiriant digonol. Os yw'r cwsmer yn gwrthod cyflwyno neu arwyddo ei 'Ffurflen Cadarnhau Angorfa', dylid ystyried gwahardd y cwsmer rhag angori ei llestr yn y porthladd, a defnyddio cyfleusterau'r porthladd.**
- **Dylid sicrhau fod ceisiadau gwerthiant disel coch yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn gyflawn ar bob achlysur, gyda holl flychau'r ffurflen yn cael ei gwblhau a bod y cwsmer yn arwyddo ac yn dyddio'r ffurflen. Dylid talu sylw agos at y gyfradd o ddisel coch mae'r cwsmer yn ei ddatgan a fydd yn cael ei ddefnyddio at bwrpasau masnachol, a sicrhau fod gwaith cyfrifo yn cael ei gwblhau'n gywir, gyda'r gyfradd treth ychwanegol gywir yn cael ei ddefnyddio.**
- **Dylid adolygu a diweddaru asesiadau risg porthladdoedd yn flynyddol, neu pan fo newid mewn risg, gan nodi dyddiad yr adolygiad ar frig yr asesiad risg.**
- **Dylid sicrhau fod staff porthladdoedd yn cwblhau gwiriadau offer diogelwch yn rheolaidd yn unol â'r hyn sy'n ddisgwyliedig, gan sicrhau fod cofnodion digonol o'r gwiriadau yma yn cael eu cadw a'u fod yn gyfredol ar bob achlysur, a bod y swyddog cyfrifol yn arwyddo'r cofnodion.**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw ddiffygion i offer diogelwch sy'n cael eu hadnabod yn y gwiriadau offer diogelwch yn derbyn sylw ac yn cael eu datrys yn amserol.**

# CANOLFANNAU CROESO
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau bod Canolfannau Croeso yn ymdrin ag unrhyw wariant, incwm a chyfrifon imprest yn gywir ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor. Sicrhau bod rheolaeth a monitro dros wariant Canolfannau Croeso gan gynnwys costau cyflogau, a bod eiddo'r Cyngor a staff Canolfannau Croeso yn ddiogel ar y safle.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o anfonebau, ffurflenni 'Derbyniadau a Bancio' (TR34) a ffurflenni 'Cais am Ad-Dalu Cyfrifon Imprest' (TR24) a thaflenni amser staff Canolfannau Croeso a gwirio eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir ac yn gyflawn, gyda thystiolaeth ddigonol yn bresennol i'w gefnogi. Gwirio bod rheolaeth a monitro dros wariant Canolfannau Croeso yn erbyn y gyllideb a bod eiddo'r Cyngor ac eiddo staff Canolfannau Croeso yn cael eu diogelu ar y safle.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod yr Adran Economi a Chymuned wedi adnabod y risg o'r gwasanaeth Canolfannau Croeso yn gorwario yn erbyn ei gyllideb flynyddol, gyda'r risg yn derbyn sylw. Yn ogystal, gwelwyd fod taliadau anfonebau, ad-daliadau cyfrifon imprest a thaflenni amser staff Canolfannau Croeso wedi cael eu cymeradwyo i'w dalu gan swyddogion awdurdodedig.
Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd copïau o gytundeb arwyddedig gydag asiantaethau allanol wedi cael ei gadw ar ffeil yn yr Adran Economi a Chymuned. Yn ogystal, gwelwyd achosion lle nad oedd ffurflenni TR34 (Derbyniadau a Bancio) a ffurflenni TR24 (Cais am Ad-Dalu Cyfrif Imprest) wedi cael eu cwblhau'n gyflawn ac yn rheolaidd yn unol â rheolau'r Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Canolfannau Croeso gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cwblhau ffurflenni TR34 yn gyflawn, gan arwyddo a dyddio'r ffurflenni yn y blwch perthnasol ar bob achlysur, a thynnu llinell ar waelod y ffurflen ar ôl ei gwblhau.**

- **Dylid sicrhau fod copi arwyddedig o gytundebau ysgrifenedig gydag asiantaethau allanol yn cael eu cadw ar ffeil.**

- **Dylid cadw "rota" Canolfannau Croeso yn gyfredol ar bob achlysur.**

- **Dylid cwblhau Cais am Ad-Daliad Cyfrif Imprest yn rheolaidd ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, gan sicrhau nad yw balans y cyfrif yn mynd yn rhy isel.**

- **Dylid sicrhau fod anfoneb/derbynneb yn cynnwys rhif TAW y sefydliad, gwerth y nwyddau/gwasanaeth a chafodd ei dderbyn a disgrifiad o'r nwyddau/gwasanaeth a chafodd ei dderbyn, cyn adhawlio TAW ar y ffurflenni TR24 (Ad-daliadau Imprest).**

# LOGIO A MONITRO
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
Pwrpas yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau boddhaol ar waith ar gyfer casglu, cynnal ac adolygu logiau digwyddiad.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae cwmpas yr archwiliad wedi ei gyfyngu i adolygiad o logio a monitro ar lefelau rhwydwaith, system weithredu a basau data. Nid yw trywyddau archwilio a logiau ar lefel cymhwysiad wedi eu cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Yn ystod y gwaith maes archwilio, gwelwyd bod cynnyrch digwyddiad diogelwch a rheoli digwyddiadau wedi cael ei weithredu a'i ffurfweddu ar gyfer nifer o gydrannau er mwyn cydymffurfio â'r safonau angenrheidiol, fodd bynnag mae lle i fonitro agweddau pellach fel bod monitro amddiffynnol yn fwy cynhwysfawr.

Mae lle i ffurfioli a dogfennu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chasglu, cynnal ac adolygu logiau digwyddiad, yn enwedig y cofnodion hynny y gellid eu defnyddio fel tystiolaeth mewn camau disgyblu neu mewn achosion llys.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y gweithdrefnau ar gyfer logio a monitro gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu polisi logio a monitro amddiffynnol ffurfiol mwy manwl sy’n cynnwys pa systemau ddylid eu monitro ac ar ba sail.**
- **Dylid dwyn systemau penodol o fewn cwmpas LogRhythm, a dylid sefydlu rhybuddion ar gyfer y digwyddiadau eraill a nodir.**
- **Dylid cynhyrchu a chynnal rhestr o systemau TG a'r mathau o ddigwyddiad diogelwch sy’n digwydd ynddynt ddylai fod yn destun rhybudd neu adroddiad safonol.**
- **Dylid sefydlu a dogfennu gweithdrefnau ymateb ar gyfer rhybuddion LogRhythm.**
- **Lle bo'n ymarferol, dylid ymateb i rybuddion LogRhythm cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu creu . Dylid arolygu adroddiadau logio o leiaf bob wythnos gan wneud ymatebion priodol.**
- **Fel rhan o fonitro log a gweithdrefnau rheoli digwyddiad, dylai casglu ac adolygu camau gweinyddol LogRhythm.**
- **Rhaid i unrhyw ddata log sy’n cael echdynnu a'i adfer i'r system at ddibenion ymchwilio yn cael ei goruchwylio'n ddigonol, gael ei wneud gan ddau berson a'i dogfennu'n llawn.**

**CYNLLUNIAU GALLUOGI**
**Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod gweithdrefnau cadarn mewn lle ar gyfer Cynlluniau Galluogi.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio sampl o Gynlluniau Galluogi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael eu darparu, trefniadau monitro cadarn mewn lle a bod cyfathrebu clir rhwng swyddogion.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn cynlluniau Galluogi sef strategaeth y broses Galluogi ar gyfer cyfeiriadau i dderbyn y gwasanaeth Galluogi. Fodd bynnag, gwelir bod angen mwy o fanylder ar y Cynlluniau Galluogi ac ar gyfer cael cysondeb dylid cael un templed ar gyfer Cynlluniau darparu ar draws y Sir. Hefyd gwelir bod angen trefniadau mwy cadarn ar gyfer rhai grwpiau gorchwyl monitro a chadw cofnodion grwpiau gweithredol. Oherwydd y pwyntiau hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cynlluniau Galluogi gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen adolygu a diweddaru canllawiau / polisïau Galluogi a'u cymeradwyo yn y modd priodol.**
- **Mae dogfennau Ymholiadau Cyswllt, Asesu Unedig (BPI 1) a Domain 1 – Perspectif y defnyddiwr yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r gwasanaeth cywir i'r defnyddiwr gwasanaeth ac felly mae angen sicrhau fod copi o'r rhain ar gael ar bob achlysur.**
- **Dylid sicrhau bod y dogfennau hanfodol e.e. Cynlluniau Galluogi ac BPI 1 yn cael eu gyrru i'r Gwasanaeth Darparu ac wedyn yn cael eu cadw ar ffeil yr unigolyn yn y ddau wasanaeth.**
- **Dylid sicrhau bod copi cyfredol o'r Cytundeb Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael eu cadw ar ffeiliau yr unigolion i sicrhau eu bod yn deall y gwasanaeth maent eu hangen.**
- **Dylid ystyried defnyddio templed Cynllun Darparu ar draws y Sir er mwyn cysondeb.**
- **Mae angen i'r darparwyr gwasanaeth o'r Gwasanaeth Darparu sicrhau fod pob ffeil defnyddiwr gwasanaeth yn dychwelyd i'r gwasanaeth ar ddiwedd y cyfnod Galluogi.**

# TALIADAU UNIONGYRCHOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod y taliadau yn cael eu gweithredu'n gywir a bod rheolaeth ariannol briodol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu'r trefniadau trwy ddilyn yn ôl ar daliadau i 10 o gleientiaid.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol sef bod gan bob defnyddiwr gwasanaeth gytundeb mewn lle ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelir bod angen cael trefniadau pendant mewn lle ar gyfer cynhyrchu a chymeradwyo polisi a chanllawiau ar gyfer y gwasanaeth. Hefyd, gwelir bod angen derbyn mwy o wybodaeth a manylder ynglŷn â gwariant y defnyddwyr gwasanaeth yn enwedig costau gweithwyr. Gwelir bod un achos wedi codi lle nad oedd y defnyddiwr gwasanaeth yn cyfrannu yn bersonol tuag at y gwasanaeth fel y dylid yn unol â'r Polisi Codi Tal. O ganlyniad, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Taliadau Uniongyrchol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynhyrchu a chymeradwyo polisi a chanllawiau Taliadau Uniongyrchol mor fuan ag sydd bosib.**
- **Dylid cynhyrchu a chymeradwyo canllawiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mor fuan ag sydd bosib.**
- **Er mwyn sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn y gofal / gwasanaeth angenrheidiol mae angen sicrhau bod asesiad blynyddol yn cael ei gwblhau a thystiolaeth o hyn drwy gynllun gofal blynyddol.**
- **Awgrymir y dylid nodi ar y cynlluniau gofal y gwasanaeth penodol sy'n angenrheidiol i'r defnyddiwr gwasanaeth ei dderbyn trwy Taliadau Uniongyrchol.**
- **Mae angen sicrhau bod cyfrif banc Taliadau Uniongyrchol y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio at bwrpas Taliadau Uniongyrchol yn unig . O ganlyniad, dylid derbyn tystiolaeth o unrhyw wariant a wneir o'r cyfrif. Lle nad oes tystiolaeth mae angen herio'r gwariant.**
- **Dylid gwneud ymarferiad monitro yn ystod un mis yn flynyddol sy'n sicrhau bod asesiad ariannol blynyddol wedi ei dderbyn i bob achos. Mewn achosion lle nad oes, mae angen cysylltu â'r Uned Polisi Codi Tâl a sicrhau fod hwn wedi ei dderbyn yn brydlon.**
- **Lle nad oes dadansoddiad derbyniol o'r gwariant perthnasol yn fisol, mae angen roi arweiniad clir i'r defnyddwyr gwasanaeth i geisio sicrhau gwelliant i'r dyfodol.**

# POBL HŶN / ANABL - ADDASIADAU I GARTREFI
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r mesurau a threfniadau sydd mewn lle mewn perthynas â cheisiadau gan bobl anabl am addasiadau i'w cartrefi.

Cwmpas yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer gweinyddu Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd yr archwiliad yn gwirio sampl o ffurflenni cais er mwyn sicrhau mai dim ond hwy sy'n gymwys i gymorth sy'n eu derbyn a bod cyfraniad ariannol yr unigolyn tuag at y gwaith yn cael ei gyfrifo yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yma yw'r ffaith y gellir rhoi sicrwydd bod trefniadau'r Gwasanaeth Tai Sector Breifat o weinyddu grantiau addasiadau i'r anabl yn ddigonol. Fodd bynnag, gellir cryfhau'r drefn o farchnata'r cynllun i drigolion Gwynedd drwy wneud mwy o ddefnydd o'r wefan a sicrhau bod y llyfrynnau ar gael yn y swyddfeydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol grantiau addasiadau i gartrefi gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu wirio am sillafu a fformatio cyn ei gyhoeddi. Dylid hefyd sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd ym mhrif swyddfeydd y Cyngor.**

- **Dylid uchafu potensial gwefan y Cyngor drwy gynnwys gwybodaeth llawn a chyfredol ynglŷn â'r grant addasiadau, er enghraifft, drwy gynnwys yr amod newydd ble mae angen i unigolion ad-dalu gwerth y grant os yn fwy nag £5,000 hyd at uchafswm o £10,000 os yw telerau'r grant yn cael eu torri o fewn 10 mlynedd.**

- **Dylid sicrhau bod cyfanswm terfynol holl daliadau mewn perthynas â grant yn cysoni gyda'r swm grant ar y rhybudd cymeradwyaeth diweddaraf.**

- **Buasai'n ymarfer da ystyried ychwanegu cyfleuster ar y system CAPS sy'n gorfodi defnyddwyr i newid eu cyfrinair ar ôl peth amser e.e. 90 diwrnod.**

- **Dylai'r sawl sy'n ardystio'r blwch 'Côd' ar y TR27b sicrhau fod y codau gwariant yn gywir.**

# PROSIECT TAI GWAG NÔL I DDEFNYDD
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod amcanion prosiect dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r rheolaethau mewnol sydd mewn lle i sicrhau bod amcanion a thargedau'r prosiect dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn cael eu cyflawni, drwy adolygu gweithrediad y strategaethau presennol a phrofi trafodion ariannol.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yma yw'r ffaith y gellir rhoi sicrwydd bod trefniadau'r Gwasanaeth Tai Sector Breifat o gynnig cymorth i berchnogion eiddo gwag yn ddigonol. Fodd bynnag, mae darganfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar sampl cyfyngedig o eiddo, gan fod adolygiad ledled Cymru yn cael ei chynnal ar gynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Troi Tai'n Gartrefi, ar amser yr archwiliad yma.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol prosiect tai gwag nôl i ddefnydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid uchafu potensial gwefan y Cyngor drwy gynnwys gwybodaeth llawn a chyfredol ynglyn â'r cynllun tai gwag, er enghraifft, drwy gynnwys y pecynnau gwybodaeth sy'n cael eu hanfon i berchnogion tai gwag pan maent yn gwneud ymholiadau dros y ffôn.**

- **Buasai'n ymarfer da i beidio awdurdodi taliadau ar ffurflenni TR27b drwy ddefnyddio delweddau electroneg o lofnodion, gan nad yw'n brawf bod y taliad wedi ei gymeradwyo gan y llofnodwyr.**

- **Buasai'n ymarfer da ystyried ychwanegu cyfleuster ar y system CAPS sy'n gorfodi defnyddwyr i newid eu cyfrinair ar ôl peth amser e.e. 90 diwrnod.**

# TOCYNAU TEITHIO RHAD - TALIADAU I GWMNÏAU BYSIAU
## Rheoleiddio

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli o fewn y Cyngor wrth weinyddu taliadau i gwmniau bysiau yn seiliedig ar ddefnydd o docynnau teithio i bobl dros 60 oed a phobl anabl.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r drefn o gasglu a gweinyddu gwybodaeth perthnasol gan y cwmniau bysiau er mwyn cyfrifo a prosesu'r taliadau, yn ogystal â gwirio'r drefn o hawlio yr arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr archwiliad yn gwirio'r drefn bresennol drwy adolygu sampl o geisiadau diweddar, yn ogystal ag ail-ymweld a threfniadau mis Medi 2009, gan fod ystadegau'r mis yma yn effeithio cyfrifiadau hyd heddiw.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiad sy'n deillio o'r archwiliad yma yw'r ffaith na ellir rhoi sicrwydd ar gywirdeb y taliadau misol i gwmnïau bysus o fewn Gwynedd, fel rhan o gynllun teithio am ddim i bobl dros 60 oed a phobl anabl, oherwydd bod y taliadau yn seiliedig ar ffigyrau a gyfrifwyd ym mis Medi 2009, ble nad oes tystiolaeth ddigonol yn bodoli i'w cefnogi. Mae'n ymddangos bod diffyg gwiriadau ar y ceisiadau misol wedi arwain at daliadau anghywir yn y gorffennol, yn enwedig ble mae siwrneiau yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gwelwyd fod y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd wedi cymryd camau priodol i adnabod y gwendidau a chryfhau'r rheolaethau mewnol sy'n rhan o'r broses gwirio a thalu ceisiadau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y taliadau i gwmnïau bysiau trwy'r cynllun Tocynau Teithio Rhad gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Gan ystyried pwysigrwydd cywirdeb ffigyrau mis Medi 2009, dylai'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd dderbyn tystiolaeth ddigonol gan gwmnïau ddaru beidio darparu adroddiadau Wayfarer yn ogystal â chwmnïau ble mae ansicrwydd dros gywirdeb y ffigyrau, fel prawf o swm cyfartaledd pris tocyn sengl i oedolyn y cwmni ar y pryd.**

- **Cyn i gwmni bws wneud eu hawliad cyntaf am daliad, dylid sicrhau bod trywydd archwilio llawn i gefnogi sut cyfrifwyd pris cyfartaledd tocyn sengl i oedolyn ar gyfer y cwmni hwnnw.**

- **Gan ystyried y rheolaethau mewnol fydd yn eu lle i fonitro'r defnydd o docynnau a broseswyd gyda llaw gan yrwyr y bysiau, dylid parhau i gyd-weithio â chynghorau eraill er mwyn derbyn arweiniad cyson ar sut i ymdrin â thaliadau am docynnau mewnbynnwyd gyda llaw.**

- **Dylai swyddogion fodloni eu hunain bod taliadau i gwmnïau bysus yn gywir drwy gysoni'r taliadau gyda'r ffurflen C1 gwreiddiol, gan ymchwilio i unrhyw addasiadau.**

# PAPURAU EITHRIEDIG A CHYFRINACHEDD
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yma oedd sicrhau bod rheolaeth briodol yn bodoli dros ddosbarthiad adroddiadau eithriedig pwyllgorau Cyngor Gwynedd er diogelu gwybodaeth gyfrinachol a gwybodaeth fasnachol sensitif. Yn ogystal â hyn, gwirio bod trefniant priodol o adnabod adroddiadau all gynnwys y math yma o wybodaeth.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r trefniadau parthed anfon adroddiadau eithriedig i swyddogion, aelodau a'r wasg ynghyd â threfniadau o benderfynu os yw adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a gwybodaeth fasnachol sensitif ai peidio. Yn ogystal â hyn, gwirio cofnodion hyfforddiant i sicrhau bod camau priodol mewn lle i gynorthwyo swyddogion ac aelodau i adnabod a deall pwysigrwydd cyfrinachedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau tynn ar gyfer sicrhau nad yw gwybodaeth o adroddiadau eithriedig yn cael ei gyhoeddi. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod llai o adroddiadau eithriedig bellach yn mynd i Bwyllgor drwy ond cynnwys gwybodaeth gyfrinachol pe bai gwirioneddol angen hynny. Mae hyn yn fodd i sicrhau fod y Cyngor yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, gwelwyd bod gwendid wrth geisio sicrhau bod yr Aelodau perthnasol wedi mynychu hyfforddiant digonol sy'n ymdrin â'r pwyntiau o gyfrinachedd a diogelu gwybodaeth bersonol neu sensitif, gydag un Aelod sy'n perthyn i'r Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol heb fynychu'r hyfforddiant yma. Gall mynychu'r cyrsiau perthnasol sydd ar gael yn fewnol gan y Cyngor fod yn fodd i sicrhau bod yr Aelodau'n hollol ymwybodol o beth yn union sy'n cael ei adnabod fel gwybodaeth bersonol neu sensitif a'r angen i ymdrin â'r wybodaeth yma'n briodol. Yn ogystal, gwelwyd nad yw'r canllawiau ar gyfer Adroddiadau Pwyllgor wedi eu diweddaru ers 2008, ac yn cynnwys trefn Bwrdd y Cyngor yn hytrach na'r drefn weithrediaeth newydd. Hefyd mae teitlau swyddi yn anghywir e.e. Pennaeth Gwasanaeth yn hytrach na Phennaeth Adran a Chyfarwyddwr Strategol yn hytrach na Chyfarwyddwr Corfforaethol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r canllawiau ar gyfer Adroddiadau Pwyllgor i adlewyrchu'r drefn ddiwygiedig sydd mewn bodolaeth ers Mai 2012.**
- **Dylid sicrhau bod Aelodau'n mynychu'r cyrsiau sydd ar gael am reoli gwybodaeth gyfrinachol a sensitif. Yn ogystal, dylid targedu'r aelodau hynny sy'n perthyn i bwyllgorau lle mae'n bosib bod trafodaethau am y math yma o wybodaeth e.e. Aelodau Pwyllgorau lle trafodir gwybodaeth bersonol am unigolion i fynychu cwrs "Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi".**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **3 RHAGFYR 2013** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2013/14 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 15 Tachwedd 2013 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 19 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Disgwyl Adolygiad | 6 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 40 |
| Cyfanswm | 105 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 6 |

2.2 Targed perfformiad 2013/14 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2014. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 15 Tachwedd (h.y. hanner ffordd trwy'r trydydd chwarter) oedd **38.1%** - allan o'r **105** archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2013/14 roedd **40** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

2.4 Er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o 60% (h.y. 63 allan o 105), bydd angen cau neu rhyddhau adroddiad terfynol 23 archwiliad arall erbyn 31 Rhagfyr 2013. Disgwylir y bydd pob un sydd â statws cyfredol o "Cwblhawyd Gwaith Maes", "Disgwyl Adolygiad", ac "Adroddiad Drafft" (12 archwiliad) wedi ei gwblhau erbyn hynny, ac mae 11 archwiliad pellach wedi eu hadnabod gyda'r nod o'u cwblhau erbyn diwedd y chwarter.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Cedwir y cynllun archwilio dan adolygiad parhaus. Yn ychwanegol i addasiadau sydd wedi eu hadrodd i gyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, yn sgil adolygiad o ddatblygiad rhai prosiectau o fewn y Cyngor, ac ystyriaeth o anghenion eraill, gwnaethpwyd nifer o addasiadau i'r Cynllun Archwilio yn ystod y cyfnod hyd at 15 Tachwedd 2013.

3.2 Mae'r tablau isod yn crynhoi'r addasiadau hyn, yn ogystal â chyflwyno rhesymau dros y newidiadau.

**Tabl 1: Archwiliadau sydd wedi eu tynnu o'r cynllun:**

| Teitl | Rheswm | Effaith (dyddiau) |
|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid *(Addysg)* | Yn sgil trafodaethau gyda swyddogion o'r Adran Addysg, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n gynamserol cynnal yr archwiliad yma eleni, oherwydd newidiadau posib i drefniadau gweithio. Mae'r archwiliad i'w gynnal yn 2014/15, dan y teitl "Modelu'r Gweithlu". | **-20** |
| Prosiectau "Channel Migration" a "Total Place" *(Corfforaethol)* | Roedd y prosiectau hyn wedi eu cynnwys yn y cynllun gwreiddiol am eu bod yn ymddangos mewn fersiynau blaenorol o Gynllun Strategol y Cyngor. Gan fod amcanion strategol y Cyngor yn cael eu diwallu trwy brosiectau eraill erbyn hyn, nid fyddai adolygiad Archwilio Mewnol yn y meysydd hyn yn defnydd effeithiol o adnoddau. | **-35** |
| Cydgyfeiriant Rhwydwaith *(Gofal Cwsmer)* | Oherwydd llithriad yn amserlen y prosiect yma, ni ellir cynnal archwiliad mewnol yn 2013/14. | **-20** |
| Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol *(Corfforaethol)* | Mae'r Uned Dysgu a Datblygu yn y broses o gyflwyno trefniadau newydd i gofnodi hyfforddiant, gan gynnwys trefniadau i ganiatáu eithriadau o'r drefn gorfforaethol. Er mwyn rhoi cyfle i sefydlu'r trefniadau newydd, bydd yr archwiliad nawr yn digwydd yn 2014/15. | **-15** |
| Trefniadau Sefydlu yr Academi Hwylio *(Economi a Chymuned)* | Bu llithriad cyn dechrau'r gwaith adeiladu, felly ni fydd y gwaith o sefydlu'r academi yn digwydd yn 2013/14. Nid oes cynnydd digonol i gyfiawnhau archwiliad. | **-10** |

**Tabl 2: Archwiliadau ble mae'r dyddiau yn y cynllun wedi eu cynyddu:**

| Teitl | Rheswm | Effaith (dyddiau) |
|---|---|---|
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion *(Addysg)* | Mewn trafodaethau gyda swyddogion perthnasol o'r Adran Addysg, derbyniwyd cais i brofi sampl mwy o ysgolion na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Canlyniad hyn fydd cynnydd cymesur yn nifer y dyddiau sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r archwiliad. | **+15** |
| Cyflogau – Goramser *(Cyllid)* | Ar ôl paratoi'r rhaglen archwilio, gwelwyd fod mwy o brofion i'w cynnal nag a fyddai'n ymarferol yn y 10 diwrnod wreiddiol oedd wedi ei ganiatáu. | **+10** |
| Porthladdoedd *(Economi a Chymuned)* | Ar ôl sefydlu'r rhaglen ar gyfer yr archwiliad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd nifer gwreiddiol y dyddiau oedd wedi eu neilltuo i'r gwaith yn ddigonol, o ystyried nifer y profion a chymhlethdod peth o'r gwaith. | **+10** |
| Canolfannau Croeso *(Economi a Chymuned)* | Ar ôl cwblhau'r gwaith maes cychwynnol, daethpwyd i'r casgliad wrth adolygu'r gwaith y dylid cynnal profion ychwanegol. | **+10** |

**Tabl 3: Archwiliadau wedi eu hychwanegu i'r cynllun:**

| **Teitl** | **Rheswm** | **Effaith (dyddiau)** |
|---|---|---|
| Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol *(Rheoleiddio)* | Derbyniwyd cais gan yr Adran Rheoleiddio i gynnwys hwn yng nghynllun eleni, gan ei bod yn flwyddyn gyntaf trefn newydd i dalu i ddarparwyr cludiant cyhoeddus, fel bod modd cael sicrwydd ar briodoldeb taliadau. | **+10** |
| Grant Cefnogi Pobl *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)* | Derbyniwyd cadarnhad, ar ôl sefydlu'r cynllun archwilio, fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol yn 2013/14 ar y defnydd o'r grant yn ystod 2012/13. | **+10** |
| Grant Blas am Oes *(Addysg)* | Yr addasiad yma wedi nodi yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2013 | **+10** |
| Cartref Bryn Blodau *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)* | Mae archwiliad o'r sefydliad wedi ei ychwanegu i'r cynllun archwilio ar gais yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden. | **+20** |
| Addysg - Adolygiad Cyllidebol *(Addysg)* | Mae hwn yn cwmpasu adolygiad byr ar gais y Pennaeth Cyllid sy'n cynnwys profi pellach ar rai agweddau sy'n codi o'r adolygiad chwarterol. | **+5** |

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14 a cynnig sylwadau arno, cymeradwyo'r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-09/2014hyff | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **6.31** | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-09/2014sys | Cefnogi Adolygiadau "Systems Thinking" | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.68** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-14/2014 | Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **25.26** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-15/2014gi | Prosiect Strategol Gwella Iechyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-17/2014 | Gweithio mewn Partneriaethau | 35.00 | 0.00 | **35.00** | **17.67** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2014a | Y Drefn Gwynion Corfforaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.50** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2014ags | Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.43** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2014b | Côd Llywodraethu Lleol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.61** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-01/2014c | Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **11.12** | Adroddiad Drafft |
| 1-CPGV-01/2014d | Polisi Buddiannau Swyddogion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.09** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-02/2014 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **5.18** | Wedi ei gynllunio |
| 2-ADN-CGC-DPA/2014 | Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.77** | Disgwyl Adolygiad |
| AN-ACY-03/2014 | Rheolaeth Gyllidebol | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **26.26** | Disgwyl Adolygiad |
| AO-ARL-05/2014 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **11.74** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-07/2014 | Gwirio Mesuryddion Perfformiad | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **21.14** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2014bao | Grant Blas am Oes | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **8.87** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014brec | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **7.21** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014ffe | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **2.84** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 4-DAT-X-ADD/2014ffg | Grant Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.42** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2014gap | Grant Amddifadedd Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.97** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 4-DAT-X-ADD/2014ks23 | Grant Refeniw 2012-13 y Cyfnod Sylfaen | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.43** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ELWa/2014 | Grant Addysg ôl-16 | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **0.54** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA29/2014 | Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | 15.00 | 15.00 | **30.00** | **9.16** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDU01/2014 | Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2014 | GwE | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **0.50** | Wedi ei gynllunio |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA15/2014 | Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.65** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA35/2014 | Trefniadau Lesu Mewn Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA35/2014b | Addysg - Adolygiad Cyllidebol | 0.00 | 5.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2014a | Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.72** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2014b | Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **25.53** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2014c | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **1.76** | Wedi ei ganslo |
| **ADNODDAU DYNOL** | | | | | | |
| **Hyfforddiant** | | | | | | |
| BE-POL-01/2014 | Defnydd o Cetis - CALMS | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.16** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2014kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.24** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2014e | System eGaffael | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AE-TAL-01/2014kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2014kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.91** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2014kc | Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2014kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AL-CYF-01/2014ma | Cyflogau - Tâl Mamolaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.30** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AL-CYF-01/2014ot | Cyflogau - Goramser | 10.00 | 10.00 | **20.00** | **1.77** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-05/2014bl | Cyflogau - Blaendaliadau | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **7.66** | Adroddiad Terfynol |
| AP-PEN-01/2014kc | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AP-PEN-07/2014 | Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **8.97** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Refeniw** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AB-BD-01/2014 | Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **17.88** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AB-BD-01/2014kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-08/2014 | Grant Gwisg Ysgol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.05** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2014dis | Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.51** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AC-TR-01/2014kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-11/2014 | Ad-daliadau Treth Di-Annedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.90** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2014kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.50** | Adroddiad Terfynol |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | | | | | |
| **Cofrestru** | | | | | | |
| BB-YSG-17/2014 | Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Swyddog Monitro** | | | | | | |
| 1-CPGV-03/2014 | Rhoddion a Lletygarwch Aelodau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **16.37** | Adroddiad Terfynol |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| BE-POL-10/2014bro | Swyddogion Adfywio Bro | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.01** | Disgwyl Adolygiad |
| T-TAI-C04/2014est | Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.58** | Adroddiad Terfynol |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-TS-01/2014 | Neuadd Buddug, Y Bala | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **4.26** | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-02/2014 | Porthladdoedd | 20.00 | 10.00 | **30.00** | **31.28** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMZ-01/2014 | Parciau Gwledig | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.01** | Adroddiad Drafft |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2014a | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-AH-01/2014 | Trefniadau Sefydlu yr Academi Hwylio | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2014r | Grantiau Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw a Hyfforddiant | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.05** | Adroddiad Terfynol |
| DDAT-AD-05/2014 | Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | 12.00 | 0.00 | **12.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DDAT-MT-01/2014 | Prosiect "Ein Treftadaeth" | 22.00 | 0.00 | **22.00** | | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-MT-02/2014cc | Canolfannau Croeso | 15.00 | 10.00 | **25.00** | **23.63** | Adroddiad Terfynol |
| **GOFAL CWSMER** | | | | | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2014 | Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.82** | Wedi ei gynllunio |
| **Cyswllt Cwsmer** | | | | | | |
| BD-PW-08/2014 | Siopau Gwynedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.14** | Adroddiad Terfynol |
| **Llyfrgelloedd** | | | | | | |
| EDIW-LL-07/2014 | Gwynedd Ni | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.81** | Adroddiad Drafft |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-06/2014 | Logio a Monitro | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **9.45** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-09/2014 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| AW-TG-12/2014 | Diogelwch Glinfyrddau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.54** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-17/2014cor | Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol) | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.45** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-17/2014ysg | Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.08** | Adroddiad Terfynol |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-02/2014 | Cynllun Rheoli Asedau | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **5.93** | Wedi ei gynllunio |
| BA-EID-02/2014off | Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.89** | Adroddiad Terfynol |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| GCC-03/2014 | Trydydd Sector - Grantiau, Comisiynu a Chontractau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GDAPR-GC05/2014 | Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **28.61** | Adroddiad Terfynol |
| GRH-GW01/2014ff | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GRH-GW01/2014rba | "Canlyniadau'n Cyfrif" | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **6.19** | Adroddiad Terfynol |
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-BUS/2014hub | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol – Canolbwynt Comisiynu Gofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2014 | Cefnogi Pobl | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.63** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-SP01/2014gr | Grant Cefnogi Pobl 2012-13 | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **3.45** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2014les | Cynllun Lesu Tai Sector Breifat | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2014 | Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **24.97** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMV-01/2014 | Grantiau Cyngor Chwaraeon | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.95** | Disgwyl Adolygiad |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GCC-07/2014 | Taliadau Uniongyrchol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **20.39** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-H07/2014tel | Teleofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-OED1/2014gal | Cynlluniau Galluogi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **26.51** | Adroddiad Terfynol |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| GGWAS-P02/2014 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-P05/2014lwf | Plant - Lwfansau Ôl-ofal | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.68** | Disgwyl Adolygiad |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1355/2014 | Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | 0.00 | 20.00 | **20.00** | **11.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Tai Sector Breifat** | | | | | | |
| T-TAI-G06/2014 | Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.79** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-G10/2014 | Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.66** | Adroddiad Terfynol |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PPR-GW03/2014 | Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.74** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-WK01/2014 | Gweithiau Adenilladwy | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **20.67** | Disgwyl Adolygiad |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GORF/2014gang | Gangiau Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| PBW-05/2014 | Gwastraff Masnachol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **23.66** | Adroddiad Terfynol |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | |
| DDAT-CC-01/2014txi | Taliadau i Gwmnioedd Tacsi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| DCYN-RD-01/2014cyn | Y Gwasanaeth Cynllunio | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **38.46** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DCYN-RD-01/2014gor | Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.39** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| T-YC-IA01/2014 | Safonau Masnach | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.02** | Wedi ei gynllunio |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-RHE-01/2014 | Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 3-RHE1-X-GRANT/2014g | Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **3.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-CC-01/2014 | Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **25.04** | Adroddiad Terfynol |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| BE-POL-08/2014 | Strategaeth Caffael | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **0.96** | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfeiriad Strategol** | | | | | | |
| BE-POL-11/2014 | Cronfa SMAP | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.61** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-13/2014 | Diogelwch Cymunedol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.54** | Wedi ei gynllunio |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2014 | Hyfforddi Aelodau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BB-YSG-19/2014 | Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.99** | Adroddiad Terfynol |
| **Perfformiad a Chraffu** | | | | | | |
| 1-CORFF-05/2014 | Trefniadau Rheoli Prosiectau | 26.00 | 0.00 | **26.00** | **1.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-05/2014cm | Prosiect "Channel Migration" | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-05/2014tp | Prosiect "Total Place" | 15.00 | -15.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2014 | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |